



# Y STAMP

RHIFYN 7 - GWANWYN 2019

EFA BLOSSE-MASON

DAN STEVENS

MELTEM ARIKAN

MARY LLOYD JONES

DAVID GREENSLADE


SIAN NORTHEY

JOHN G. ROWLANDS

GWYNON MAIR

MORWEN BROSSCHOT

+ POSTER: ANI SAUNDERS



# Paent o'r gloch yw hi Esyllt Lewis

**Ma celf yn neud fi'n hapus, mae'n flasus, mae'n hyll a chas a heriol a hardd.**

Pan weles i fod *Y Stamp* yn chwilio am rhywun oedd yn frwdfrydig am gelf weledol i fod yn olygydd newydd ar y cylchgrawn, esi bach yn gyffrous. Mae gen i ddiddordeb mewn celf ers saimo pryd, yn hoffi tynnu llunie a chreu, mwynhau archwilio cyfoeth paent ar ganfas, teimlo lliwiau a gweadau'n mynd â fy llygaid i lefydd na fuont o'r blaen.

Gwefr edrych ar ffordd rhywun arall o edrych ar y byd.

Wrth dyfu'n hŷn, mae'r boddhad naif hwn o fwynhau estheteg pur darn o gelf wedi aros gyda mi. Llyncu lliwiau a llinellau heb ystyried cyd-destun ehangach y broses o greu gwaith celf penodol.

Wrth i gysyniadau sydd ymhlyg mewn gwaith celf ddod yn fwy amlwg, y cymhlethdodau diwylliannol a'r cwestiynau dyrys y mae gweithiau celf yn medru eu codi ynglŷn â'r byd yr ydym yn byw ynddo, mae'n rhaid cofio hefyd am y pleser syml o edrych, o syllu'n syn, o wrando, neu o deimlo darn o gelf. Nes i gwmpo mewn cariad â phaent – y stwff – i'r fath raddau wrth astudio cwrs sylfaen celf nes i mi baentio fy nesp yn llwyr gyda haenau a haenau a haenau o baent am ddyddiau cyn ei bilio i ffwrdd yn wompyn o groen lliwgar oddi ar y ddesg. Doedd dim rheswm am hyn heblaw fy mod eisiau arbrofi a chwarae gyda phaent.

'Byddai fy mhlentyn 5 mlwydd oed yn gallu gwneud hwnna!'

Mae hon yn ffordd gyffredin o wfftio gwaith celf gyfoes.

Mae sawl problem gydag ymateb o'r fath, ond efallai mai un ymateb posib i hyn yw dathlu hynny. Onid oes angen i ni geisio, weithiau, cofio sut beth yw edrych ar y byd gyda rhyfeddod a diffyg rhagfarnau plentyn?

Mae'n werth cymryd amser i syllu fel plentyn pum mlwydd oed ar y patrymau, y lliwiau a'r gweadau sydd yng nweithiau celf y cylchgrawn hwn.

Dwi wir yn credu bod celf weledol yn perthyn i bawb, os ydym yn dymuno hynny. Nid rhywbeth i rai pobl sy'n deall eu pethe, yr *elite* dysgedig mohono, ond cyfrwng i fynegi gogoniant a galar bywyd. Cyfrwng i fynegi'r profiad o fodoli. Yn yr un modd ag y mae'r iaith Gymraeg yn gyfrwng i ni fynegi ein profiad ni o fyw fan hyn, nawr, yn 2019.

Mae celf yn perthyn i bawb yng Nghymru, yn yr un modd ag y mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd. Wrth i ni gynyddu'r drafodaeth am gelf yn Gymraeg, gallwn ddangos sut y mae'r ddau beth yn gweithio gyda'i gilydd, yn hytrach nag yn erbyn ei gilydd, i gyfoethogi ein diwylliant. Mae'n rhaid chwalu'r ffiniau rhwng 'ni' a 'nhw' – bod iaith delweddu a'r iaith Gymraeg yn bethau estron i'w gilydd. Y byd celf Seisnig Vs. Y byd Cymraeg llengar, barddonol, Eisteddfodol. Pwy sydd i ddweud nad yw celf gyfoes yn un o'r 'pethe'?

Wrth archwilio ein hunaniaeth drwy iaith delweddu, gallwn ymbwero. Dywed John Berger (dyle pawb ddarllen *Ways of Seeing* – nath e newid fy mywyd):

*If the new language of images were used differently, it would, through its use, confer a new kind of power. Within it we could begin to define our experiences more precisely in areas where words are inadequate ... Not only personal experience, but also the essential historical experience of our relation to the past: that is to say the experience of seeking to give meaning to our lives, of trying to understand the history of which we can become active agents ... A people or a class which is cut off from its own past is far less free to choose and to act as a people or class than one that has been able to situate itself in history. (tud. 33)*

Falle eich bod yn gweld eironi'r ffaith i mi ddefnyddio dyfyniad Saesneg wrth geisio

tanlinellu pwysigrwydd perthynas celf â'r Gymraeg. Ond mae hwn yn rhan o'r pwynt – heb ddisgwrs yn Gymraeg, heb greu stwff yn Gymraeg, y mae'r drafodaeth yn parhau yn Saesneg yn unig, ac felly mae'r byd celf yn parhau i ymddangos fel rhywbeth Saesneg a Seisnig. Mae angen i ni feddiannu celf weledol fel cyfrwng, fel rhan o'n diwylliant, am ei fod yn ffordd i estyn allan i'r byd, fel y mae cerddoriaeth pobl fel Gwenno a Super Furry Animals wedi llwyddo i'w wneud.

Wrth olygu *Y Stamp* dwi'n teimlo bach fel plentyn mewn siop losin fy hun – mae'n gyfle arbennig i ofyn i artistiaid gweledol Cymreig i arddangos eu gwaith, yn artistiaid hen ac ifanc, yn rhai anarchaidd a rhai gwaraid, yn rhai sy'n byw yn Y Fro Gymraeg a rhai sy'n byw dramor. Mae'n fraint werthfawr.

Mae llwyth o ferched wedi cyfrannu at y rhifyn yma. Maen nhw i gyd yn ysbrydoliaeth ymhell y tu hwnt i ddiwrnod rhyngwladol y menywod. Rhai fel Mary Lloyd Jones, sydd wedi arwain y ffordd ers blyneddodded fel menyw ynghanol lluo o ddynion yn y byd celf yng Nghymru. Rhai fel Ani Saunders, sydd wastad yn fy synnu gyda'i thalent aml-ddisgyblaethol: perfformwraig dihafal, artist greddf, meddyliwr cadarn. Rhai fel Sian Northey, sy'n sgwennu stori mor hawdd ag anadlu. Rhai fel y gantores Marged, y mae darllen geiriau ei maniffesto fel brathu losin caled. Rhai fel Efa sydd wedi dylunio clawr ysblennydd y rhifyn hwn. Mae Cymru yn llawn o fenywod a dynion talentog sydd â stwff i ddweud a chyfrannu er mwyn gwneud y byd yn lle gwell; ymysg dryswch gwleidyddiaeth dŵm Brexit, mae'r dyhead hwn i greu ac ymateb yn gyffrous, a hanfodol.

Fi'n caru'r ffaith bod *Y Stamp* yn gylchgrawn annibynnol, nad yw'n derbyn ceiniog o arian cyhoeddus, sy'n cael ei gynnal yn hollol wirfoddol. Mae hyn yn ymddangos bron fel rhywbeth amhosib mewn cyfnod lle mae cyhoeddiadau print yn lleihau mewn poblogrwydd. Mae'r wê, ysywaeth, yn tra-arglwyddiaethu ar y

ffordd rydym yn treulio gwybodaeth a newyddion, ac mae'r feddylfryd bod angen cael arian i wneud unrhywbeth yn un cyffredin. Ac eto mae golygyddion y cylchgrawn hwn, drwy lafur cariad, wedi llwyddo i gyhoeddi 6 rhifyn, a chynnal gwefan lwythog, a dechrau cyhoeddi llyfrau, a gwneud i hyn oll i edrych yn reit hawdd! Y pethe bach slic!

Fi'n llawn edmygedd o Grug, Miriam, Llŷr a Iestyn am fentro creu'r creadur aml-weddog, hynod hwn. Fi'n edrych 'mlaen i allu cyfrannu at y potes: dyma ofod i amlygu a dathlu amrywiaeth diwylliant Cymru. Mae wir wedi bod yn bleser ers dechrau ar y gwaith a gweld pobl yn cofleidio'r cyfle i leisio eu barn a chyfrannu at y clytwaith creadigol.

Mae'r *Stamp* yn gweithio i geisio sicrhau fod amrywiaeth lliwgar o leisiau'n

cael eu clywed yn ein cyhoeddiadau. Gyda phob llais newydd, mae'r diffiniadau o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o'r 'Byd Cymraeg' yn amlhau. Profodd ein dathliad o fis hanes LHDT+ ar ein gwefan yn llwyddiant mawr, ond nid ym mis Chwefror yn unig y mae lleisiau pobl o'r gymuned honno angen cael eu clywed. Mae angen gwneud yn siŵr fod gan bobl nad ydynt wedi cael cynrychiolaeth deg o fewn ein diwylliant yn y gorffennol gyfle i floeddi'n groch am eu profiadau gydol y flwyddyn – nid aros ar y cyrion ond bod yn hollbresennol. Wedi'r cyfan, mae'r *critical mass* yn cael ei greu gan unigolion a phobl y cyrion.

Mae *Y Stamp* – y wefan, y cylchgrawn a Chyhoeddiadau'r Stamp, yn ddarn o dir heb ffiniau pendant i bobl

gael arbrofi o ran cynnwys, arddull a chywair. Maes chware creadigol i blant mawr. Dewch atom i baratoi pob math o stwff – melys, hallt, heriol, brasterog, llosgedig.

Dewch, gyda'ch llwy bren, i gymysgu syniadau a delweddau newydd, yn Gymraeg.

Caerdydd, Mawrth 2019

ystamp.cymru // @ystampus // facebook.com/ystampus  
golygyddion.ystamp@gmail.com

Hawlfraint © 2019 Y Stamp

Argraffwyd yn yr Undeb Ewropeaidd gan Y Lolfa

**Golygyddion** Grug Muse  
Llŷr Titus  
Esyllt Lewis  
Iestyn Tyne

**Celf y Clawr** Efa Blossie-Mason

**Dylunydd** Iestyn Tyne

Barn awduron unigol a gyhoeddir yn *Y Stamp*, ac nid o reidrwydd rhai'r cylchgrawn a'i fwrdd golygyddol. Gall cyfraniadau i'r cylchgrawn hwn gynnwys rhegfeydd, iaith gref a deunydd aeddfed ar brydiau.

#### DIOLCH

Hoffai'r stampwyr fynegi eu diolch i bobl hyfryd Treorci am y croeso yn lansiad y rhifyn diwethaf; i'r hysbysebwyd am eu nawdd; i'r siopau llyfrau ledled Cymru sy'n cynnwys y cylchgrawn ar eu silffoedd; i CHI, ddarllenwyr annwyl; ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn.

**MAE'R STAMP YN GYHOEDDIAD CWBL ANNIBYNNOL A REDIR YN WIRFODDOL.**

# Y STAMP

RHIFYN 7 | GWANWYN 2019

## CYNNWYS




### BARDDONIAETH

David Greenslade .....	7
Guto'r Glyn .....	11
John Rowlands a Morgan Alun .....	18
Morwen Brosschot ( <b>Proses</b> ) .....	31


### RHYDDIAITH

Lliwen Glwys ( <b>Ymateb i Gelf</b> ) .....	16
Ruth Richards ( <b>Y Labordy</b> ) .....	27
Sian Northey .....	33
Dyfan Lewis .....	36



### CELF

Efa Blosser-Mason .....	1
Esyllt Lewis .....	2
Lleucu Gwenllian .....	17
Mary Lloyd Jones .....	24
Tomos Sparnon .....	25
Ani Saunders .....	Poster




### YSGRIFAU

Esyllt Lewis ( <b>Golygyddol</b> ) .....	3
Dan Stevens ( <b>AilBobi Jones</b> ) .....	9
Mary Lloyd Jones .....	35

### ADOLYGIADAU\*

<i>Sautin + Sautin</i> .....	6
<i>Cerdded mewn Cell</i> .....	11
<i>Tacsi i'r Tywyllwch</i> .....	15
<i>Dyfodiaith</i> .....	23
<i>Woof</i> .....	28



### MWY


Marged Siôn ( <b>Maniffesto</b> ) .....	8
Meltem Arıkan ( <b>Cyfweliad</b> ) .....	12
Gwynon Mair (Zine) .....	20
Liam Kurmos / Ellis Jones ( <b>Cartrefi Cymru 2.0</b> ) .....	29

<b>Adnabod yr Artist</b> .....	40
<b>Y Stampwyr</b> .....	41

\*Cyhoeddir pob adolygiad unigol o gynnyrch newydd Cymraeg neu Gymreig yn Y STAMP yn ddienw. Adolygwyr stampus Rhifyn 7 yw:

**ELAN MERERID RHYS / OWAIN EVANS**

**GWENLLIAN LLWYD / CADİ DAFYDD / MELERI MORGAN**





ADOLYGIAD – CELF

## Sautin+Sautin Lea Sautin

ORIEL PLAS GLYN Y WEDDW,  
LLANBEDROG  
IONAWR – MAWRTH 2019

**Mae cerdded o ystafell i ystafell ym Mhlas Glyn y Weddw bob tro'n bleser.** Mae'r golau naturiol sy'n taflu ei hun drwy'r ffenestri gothig, gan lenwi'r amrywiol wagleoedd yn creu naws 'ben bora', fel tasa'r haul yn gwawrio ar y Plas a chi ydi'r unig berson yna i'w brofi. Mae'n gartref i oriel gelf weledol sy'n arddangos amrywiaeth eang a safonol o waith gan artistiaid o Gymru. Gyda'i harddangosfeydd cyfredol a chyffrous mae'n un o'r cyrchfannau creadigol gorau

sydd gennym ni yng Nghymru.

Mae wedi'i lleoli yn Llanbedrog ym Mhen Llŷn, sef y pentref ble magwyd yr artist Lea Sautin, a fu ag arddangosfa yno hyd yr 17eg o Fawrth eleni. Mae hi'n argraffwraig sydd wedi arddangos yn genedlaethol ers graddio o Ysgol Gelf Glasgow yn 2015 ac yn arddangos yn y Plas ar y cyd â'i brawd, Owain Sautin, sy'n artist aml-gyfrwng.

Mae ein traddodiad chwedlonol yn amlwg yn ysbrydoliaeth cyson i Sautin, ac ar gyfer y casgliad yma o waith mae hi'n archwilio straeon agos i adra. Trwy ddefnyddio'r gyfrol *Llên Gwerin Sir Gaernarfon* gan Myrddin Fardd, o 1908 fel adnodd i'w dychymyg, mae straeon hudolus am dylwyth têt yn ardal Llanbedrog, Rhys a Meinir yn Nant Gwrtheyrn a cheffylau Brenin March ap Meirchion yn Abersoch wedi dod i'r amlwg. Yr hud a lledrith yma ydy un o'r

llinynnau sy'n rhedeg drwy bob darn o'i gwaith hi yn yr arddangosfa.

Argraffiadau yw'r prif gyfrwng y mae Sautin wedi defnyddio hyd yma, boed hynny'n argraffiadau leino ar fodolau 3D neu yn Cyanotypes. Proses argraffu ffotograffig ydy Cyanotype sy'n gwneud defnydd o gemegion sy'n ymateb i olau UV. Mae'r canlyniad bob tro'n ddelwedd lliw glas dwfn, llachar, sy'n gyferbyniad trawiadol gyda'r cynfas gwyn.

Ar yr olwg gyntaf, delweddau a chymeriadau naif oedd yn amlygu eu hunain i mi, a chymerodd hi dipyn o amser i mi ymgysylltu â'r gwaith gan i mi geisio gweld y tu hwnt i'r motiffau naif hynny. Ond wrth gyfarfod â rhagor o'r cymeriadau di-wynebog yn y darnau, cefais y teimlad cryf nad symlrwydd a welwn, ond dirgelwch. Roedd edrych ar y darnau fel cael cipolwg ar ddimensiwn

## GEORGE OSTAFI 1962-2019

Tydi a'n gwisgodd  
yn nillad  
cynfas a phaent,  
a sylwadau hael *auf Deutsch*,  
Saesneg, *Polski, Italiano*  
a iaith y nefoedd,  
ac yn ein dweud o'r newydd  
megis brut a hanes  
ar drydar anghyfarwydd.  
Nid trwy'r ffraeth yn unig  
ond hefyd trwy barodrwydd dy liwiau  
disglair ynghlwm â dy awen rydd,  
wrth i ni weld o lygad y ffynnon  
orwelion Cymru a Rwmania fydd.  
Dy ddwylo di oedd y cyfrwng  
a glymodd ein gweled, ein gwneud  
a'n camau gyda'i gilydd.  
Ar dy wahoddiad taer bwytasom  
o ddisglaid orlawn y melinydd.

*GEIRIAU DAVID GREENSLADE  
PORTREAD DAVID REES DAVIES*

hudol, tywyll, ble mae creaduriaid a phobl ryfedd yn byw yn y cysgodion. Mae'r Cyanotypes yn dal yr eiliad pan mae'r cymeriadau'n camu i'r golau, cyn diflannu i'r nos unwaith eto. Maen nhw'n olygfeydd chwareus a sinistr ar yr un pryd.

Gwelais ysbrydoliaeth sioeau pypedau cysgod yn y delweddau ac mae cysgod a golau yn nodwedd hynod gryf sy'n rhedeg drwy bob darn. Mae'n peri i mi feddwl, 'sgwn i os dychmygodd Sautin ei gwaith ar waliau Glyn y Weddw wrth eu creu, ac a fyddai hynny wedi effeithio'r broses greadigol? Mae'r gydberthynas rhwng golau naturiol, pwerus yr oriel â'r elfen gref o olau yn y darnau mor amlwg, synnwn i ddim petai'n fwriadol.

Cyanotype ydy cyfrwng pob darn 2D yn yr arddangosfa ond mae ambell i ddarn 3D hefyd sydd ag argraffiadau leino arnynt. Un o'r rhain

ydy Y Storîwr, sy'n osodiad 3D o bapur a cherdyn a gomisiynwyd gan ŵyl Made in Roath yng Nghaerdydd. Mae ar raddfa llawer mwy na gweddill y darnau a chafodd ei greu yn wreiddiol i ffitio yn ffenestr tŷ yr artist yn Y Rhath. Mae'n amlwg fod Y Storîwr wedi ei greu mewn cyd-destun gwbl wahanol i weddill y darnau, a doeddwn i ddim yn credu ei fod yn meddu ar yr un naws ddirgel. Mae themâu cryf yn cysylltu gweddill y darnau gyda'i gilydd ac roedd Y Storîwr yn sefyll allan yn eithaf trwsogl gan nad oedd yn rhannu'r cysylltiad yma. Ond mae darnau 3D eraill ar ffurf cyfres o fodelau papur o ffigyrau sy'n ymddangos fel cymeriadau yn y Cyanotypes. Mae dau ysgyfarnog ymysg y rhain, sy'n cyfleu y fath symudiad fel ei fod yn ymddangos fel petai fod Sautin wedi eu dal nhw wrth iddynt ddianc o'r byd 2D.

Y teimlad sydd wedi aros gyda mi ers gadael Plas Glyn y Weddw ydy'r rhyfeddod o gael bod ym myd dychmygus, direidus a thywyll gwaith celf Sautin. Roeddwn wrth fy modd cael ei brofi a hoffwn ddychwelyd yno.





*'Nid oes bellach unrhyw harddwch heblaw am harddwch yr ymdrech. Ni all unrhyw ddarn o gelf sy'n dangos diffyg ffyrnigrwydd fyth fod yn gampwaith. Rhaid meddwl am farddoniaeth fel ymosodiad treisgar ar bêrau'r anhysbys, gyda'r bwriad o wneud i'r pŵerau hyn ymostwng wrth draed dynol ryw.'*

Yn 1909, cyhoeddodd F.T. Marinetti, ar ran grŵp o artistiaid Eidaleg, y **Manifesto del Futurismo** (Manifesto Dyfodoleg). Dyma oedd dechrau'r syniad o artistiaid yn ysgrifennu manifestos, yn cyflwyno eu gweledigaeth i'r byd.

Yn 2019, dyma'r *Stamp* yn gofyn i rai o artistiaid Cymru am eu gweledigaeth hwythau.

# MANIFESTO MARGED SIÔN

## Hunan Gariad:

Beth yw 'hunan gariad' os nad wyt ti'n caru dy hun?

Ma 'na ffyrdd 'anghywir' o ymarfer hunan gariad.

'Fformiwlau' arbennig i'w dilyn. Ond dydi pawb ddim yr un peth a rydyn ni i gyd yn bendant ar ffyrdd gwahanol.

Y cylchgronae sy'n cynnwys erthyglle sy'n darllen '5

*Ways To Feed Your Soul* 'yw'r un cylchgronae sy'n gwerthu llunio o fenywod yn arddangos safonau

afrealistig o harddwch ar y clawr. Dim bod unrhyw beth yn bod ar y menywod hynny, ond er mwyn gallu ymarfer hunan gariad ma angen i ni allu gweld ein hunen yn y llunio.

Menywod tew, menywod tene.

Menywod o bob ben byd o bob lliw croen. Menywod trans.

Menywod hoyw.

Menywod sy'n famau. Menywod sy'n methu cal plant.

Menywod beichiog.

Menywod ag anabledd

a menywod sydd yn agored am eu salwch meddwl.

Menywod sydd wedi bod trwy adferiad a menywod sy' dal yn ymladd trwy eu hadferiad.

Ma rhaid i bob un menyw cal ei gweld a'i chlywed.

Yn hytrach na dim ond mesur eich gwerth drwy gyfrifi' sawl awr nethoch chi yn y gampfa, sawl litr o ddŵr nethoch chi yfed heddi neu sawl 'face mask' nethoch chi'r wythnos hon;

carwch eich hunan am mai dim ond un ohonoch chi sydd.

*Dyna be sy'n dod â ni yn agosach at ein*

*hunain ac at ein gilydd.*

## hunan|gariad

[*hunan*-+*cariad*]

eg.

Gofal naturiol a phriodol ar ran dyn am ei fuddiannau, ei les a'i ddedwyddwch ef ei hun; gan amlaf, fodd bynnag, ystyr anffafriol sydd iddo, sef hunangarwch, hunanoldeb:

*self-love, amour-pro*





Perfformiadaeth ryweddol:  
*RuPaul's Drag Race*. Llundain David Miller.

AILBOBI JONES  
Guto'r Glyn,  
Homoerotiaeth a  
Rhywedd Perfformiadol  
Dan Stevens

Rwy'n ymwybodol y gallai'r teitl hwn achosi sgandal ym myd beirniadaeth lenyddol yn y Gymraeg. 'Ni allwch ddweud bod gan Guto'r Glyn ddyheadau tuag at ddyfynion,' bydd rhai yn dweud. Nid fy nod yw gwneud hynny, o gwbl. Mae theori gwiyr (*queer theory*) yn ei hanfod yn edrych ar ryw biologol, rhywedd (*gender*) a dyhead rhywiol. I berson sy'n darllen yn gwiyr, fel finnau, cyfres o sbectrymau yw rhyw, rhywedd a dyhead yn hytrach na bocsys cyfyngol a therfynol. Gallwn ni symud o gwmpas y sbectrymau, neu beidio â lleoli ein hunain, os ydym eisïau. Rydym hefyd yn edrych ar sut y mae rhywedd yn beth perfformiadol (*performative*), a sut y mae rhywedd yn gysylltiedig â rhyw fiolegol a dyhead rhywiol. Yn ôl Judith Butler, brenhines theori cwiyr, diffinir rhywedd fel 'the repeated stylization of the body, a set of repeated acts.' [i] Yn yr ysgrif hon, byddaf yn darllen un o gerddi Guto'r Glyn, sef 'Diolch i'r Abad Dafydd [...] a Rhisiart Cyffin [...] am wella briw,' [ii] mewn modd cwiyr ac yn edrych ar sut y gall darlleniadau cwiyr ddod â thrafodaethau newydd i'r golwg.

Cerdd sy'n disgrifio Guto'r Glyn anafiedig yw 'Diolch i'r Abad Dafydd.' Mae'n rhoi diolch i'r Abad Dafydd am roi cusan ar ei anaf i'w helpu. Yn syth, mae Guto'r Glyn yn perfformio'n wrywaidd – 'Drwy serthallt draw y syrthiais/Dros fur

oni dorres f'ais.' [iii] Y mae'r berf 'syrthiais' yma yn cynrychioli gweithrediad go farchogol, 'gwrywaidd.' Y mae'n glir felly bod Guto, boed hynny'n ymwybodol neu'n isymwybodol, yn perfformio gwrywdod traddodiadol yma. Er y bydd yn disgrifio cusan eithaf *risqué* ynghanol y gerdd, gellid dadlau ei fod yn profi ei wrywdod yma. Y mae perfformiadau rhyweddol a hylifedd rhywedd (*gender fluidity*) yn bethau sydd wedi dod yn amlwg mewn diwylliant poblogaidd yn ddiweddar – un o'r enghreifftiau mwyaf poblogaidd yw *RuPaul's Drag Race*, rhaglen realiti sy'n gystadleuaeth rhwng artistiaid drag. Y mae'r holl artistiaid ar *Drag Race* yn ymwybodol eu bod yn rhan o'r system perfformiadaeth ryweddol. [iv] Nid brenhines drag yw Guto'r Glyn ond mae'n sicr yn dewis perfformio 'gwrywdod' traddodiadol drwy gydol ei farddoniaeth.

Nesaf, gofynna i Sant gwrywaidd helpu'i gorff – 'Gwneid eilwaith, gwnaed eli,/ Glwyd f'ais, ac elied fi.' [v] Y mae'r gweithredoedd sy'n gysylltiedig ag iachau yma yn weithredoedd sydd hefyd yn gallu cael eu darllen mewn modd homoerotiaidd – yr act o rwbio 'eli' ar ei asennau; ail-adroddir y cysyniad eto yn yr ymadrodd 'elied fi'. Y mae Guto'r Glyn wedi dewis gofyn i 'Harri Sant' ei elio. Rwy'n dadlau felly bod Guto'r Glyn yn

cyfuno cysyniadau Cristnogol â'i ddyhead homoerotiaidd posibl yma. Dywed Judith Butler, 'gender itself becomes a **free-floating artifice**, with the consequence that *man* and *masculine* might just as easily **signify a female body** as a male one.' [vi] Hynny yw, mae'r gweithredoedd 'gwrywaidd,' gwrthrychol sydd wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio Guto'r Glyn rŵan yn troi'n rhai 'benywaidd,' goddefol, o helpu pobl sydd mewn angen. I raddau, y mae'r olygfa hon fel yr olygfa yn *Ghost* (1990) gyda chrochenwaith; ond yn *Ghost*, mae Patrick Swayze a Demi Moore yn cyfleu system perfformiadol rhywedd gan actio'n wrthrychol neu'n oddefol er mwyn cyfleu ystrydebau eu rhyweddau, sef yr ystrydebau sy'n gysylltiedig â 'gwrywdod' a 'benywaiddra' yn ôl y diwylliant Americanaidd.

Y mae *damage control* Guto yn y gerdd yn digwydd yn syth pan fo'n cyfeirio at yr Abad ei hun. Dywed Guto, 'Mil o saint ym mhalis hwn;/Mynaich a rent, main a chrwys.' [vii] Trwy awgrymu fod 'mil o saint' ym mhalis yr Abad, y mae 'na ryw gysylltiad rhwng yr Abad, Guto a Christnogaeth eto. Y mae Eve Sedgwick yn ei chyfrol *Between Men* yn edrych ar berthnasau homogymdeithasegol (*homosocial*) rhwng dynion, a sut y maen nhw'n blyrio'r ffin rhwng cyfeillgarwch glos iawn a pherthnasau homoerotig.

"Guto'r Glyn yw un o feirdd  
pwysicaf yr Oesoedd Canol,  
ac mae'n ymgorffori  
tactegau'r oes i gyfleu  
homogymdeithaseg i bobl yn y  
llysoedd."

Trwy gysylltu Cristnogaeth â'r Abad Dafydd yma, gellid dweud bod Guto yn cael gwared ar unrhyw amheuaeth o sodomiaeth (gweithredoedd drwg, gan gynnwys homoerotiaeth, yn ôl y rhai yn yr Oesoedd Canol). Er bod y llinellau sy'n dilyn yn arbennig o *risqué*, mi fyddwn yn dadlau bod angen i Guto ail-adrodd y ffaith eu bod yn arbennig o Gristnogol er mwyn osgoi cael ei galw'n 'sodomiad'.

Yn syth ar ôl hynny, y mae cusan gyntaf y gerdd yn digwydd, ond mae Guto'n gwneud yn siŵr ei fod yn datgysylltu'i hunan o weithredoedd sodomaidd eto. Mae'n ysgrifennu, 'Cusan o'i dref a gefais/Clo fy min rhag clwyf o'm ais. [viii] Nid cusan o wefusau'r Abad yw honno – nace wir – ond cusan 'o'i dref,' sef ei sefydliad, a'i swydd fel person arbennig o bwysig yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Y mae'r datgysylltu hwn yn debyg iawn i bobl yn ein cymunedau ni sydd yn (i ddefnyddio'r ymadrodd Saesneg) 'straight-acting.' Mae'n cymuned ni wedi creu elfen o euogrwydd o ran bod yn gwiyr, gan boblogeiddio ymadroddion fel 'no homo;' mae'n glir, felly, yn fy llygaid i, nad ydym ni wedi newid mewn modd pwrpasol tuag at ddyfodol cwiyr lle nad oes labeli neu euogrwydd o ran rhyw biolegol, rhywedd a dyhead ers yr Oesoedd Canol.

Wedyn, disgrifir effaith y gusan ar Guto. Mae'n dweud, 'Trwy wayw chwewr y tra-churiais,/Triagl min a'i treigl o'm ais. [ix] Ceir cyfosodiad rhwng natur 'chwewr' ei anafiadau, a'r gusan, sy'n cael ei chymharu â 'triagl min.' Er ei fod yn defnyddio blas i ddisgrifio'r gusan, byddwn yn dweud bod Guto yn cysylltu'r gusan â glythineb, pechod arall sydd wedi'i gysylltu â homoerotiaeth a phechodau rhywiol (hynny yw, sodomiaeth). Er bod y gusan yn iawn o ran gweithredoedd homogymdeithasegol yr oes – mae cyfeillgarwch clos rhwng marchogion yn rhywbeth cyffredin – mi ddywedwn fod 'na ddimensiwn rhywiol yma hefyd.

Awgrymwn fod modd dadlau fod Guto'n hiraethu am gusan yr Abad fel yr ydym ni'n hiraethu am fwyd.

Y mae Guto yn parhau i ddisgrifio effaith y gusan mewn modd Cristnogol. Dywed

Myrr o'i fin ar fy marf fydd  
Mal tus dwy wefus Dafydd. [...]  
Pwmpa annerch, pump einioes,  
Pren pêr yr haelder a'i rhoes.[x]

Eto, mae'r gusan yn rhywbeth synhwyrus, gan fod Guto yn awgrymu ei bod fel 'Myrr o'i fin'. O gysylltu cusan yr Abad ag un o'r anrhegion a gafodd Iesu Grist ar noson ei eni, mae 'na ryw gysylltiad rhwng plaser rhywiol a phleser o fewn Cristnogaeth. Parha Guto i ddefnyddio delweddau Beiblaidd er mwyn cyfleu angerdd y gusan trwy gyfeirio at '[b]wmpa annerch', sef afal sy'n dod o '[b]ren pêr yr haelder'. Delwedd Edenaidd yw hon; hynny yw, y mae Guto yn cysylltu'r gusan, yn ymwybodol neu'n isymwybodol â phechod – y pechod cynta', hyd yn oed. Y mae'r pechod hwn yn deillio o Adda ac Efa, sef y partneriaid heterorywiol cyntaf; mi fyddwn yn dadlau felly bod Guto yn cysylltu cusan homogymdeithasegol (neu homoerotiaidd) gyda phechod heterorywiol er mwyn tanseilio ei sodomiaeth bosibl. Eto, mae sgrech y *closet* yn gryf ac yn glir yma.

I gloi, Guto'r Glyn yw un o feirdd pwysicaf yr Oesoedd Canol, ac mae'n ymgorffori tactegau'r oes i gyfleu homogymdeithaseg i bobl yn y llysoedd. Y mae Guto yn delio â chysyniadau rhywedd a dyhead rhywiol er mwyn, efallai, cuddio ei ddyhead rhywiol tuag at ddyn arall. Trwy or-ddisgrifio a gor-feddlw am y gusan oddi wrth ddyn, mi ddywedwn fy mod i, Guto, a llwyth o bobl eraill yn y gymuned LHDTC+ yng Nghymru (a ledled y byd) yn debyg iawn – nid ydym yn gallu cuddio ein dyheadau rhywiol.

## CYFEIRIADAU

[i] Judith Butler, *Gender Trouble: Feminism and the Subversion of Identity* (New York: Routledge, 1990; 2007), t.45

[ii] Guto'r Glyn (golygydd gan R. Iestyn Daniel), 109 – 'Diolch i'r Abad Dafydd ab Ieuan o Lyn-y-groes a Rhisiart Cyffin ab Ieuan Llwyd, deon Bangor, am wella briw', gw. gyferbyn

[iii] 'Diolch I'r Abad Dafydd,' ll. 3-4

[iv] Er enghraifft, edrychwch ar Aquaria, un o artistiaid sydd wedi llwyddo ar *Drag Race*, a sut maen nhw'n [rwy'n defnyddio eu/nhw fel term niwtral o ran rhywedd yma] perfformio rhywedd yn ymwybodol.

[v] 'Diolch I'r Abad Dafydd,' ll. 9-10

[vi] Butler, *Gender Trouble*, t. 9 (fy mhwyslais mewn print trwm)

[vii] 'Diolch I'r Abad Dafydd,' ll. 24-25

[viii] Ibid., ll. 31-32 (fy mhwyslais mewn print trwm)

[ix] Ibid., ll. 45-46

[x] Ibid., ll. 55-56, 63-64

*Dymuna'r Stamp ddiolch i griw gutorglyn.net am roi eu caniatâd i gynnwys y cywydd gyferbyn yn y cylchgrawn. R. Iestyn Daniel fu'n gyfrifol am olygu'r gerdd, ac Ann Parry Owen oedd y golygydd cyffredinol.*

# DIOLCH I'R ABAD DAFYDD AB IEUAN O LYN-Y-GROES A RHISIART CYFFIN AB IEUAN LLWYD, DEON BANGOR, AM WELLA BRIW

Deliais, o glwyf a dolur  
Doe gan gwymp, digon o gur;  
Drwy serthallt draw y syrthiais  
Dros fur oni dorres f'ais.  
Y brenin, o'm briw ynial,  
A wna ym les yn nheml lâl.  
Af â'r ais a friwasant  
A'r tyrs hir at Harri Sant:  
Gwnied eilwaith, gwnaed eli,  
Glwyd f'ais, ac elied fi.  
Y mae'n glaf ym win a gwledd  
A magwraeth o'm gorwedd:  
Plas dwyfol, palis Dafydd,  
Parth y sant i'm porthi sydd.

Ym Mangor wen, myn y Groes,  
Y mae'r wyl ym yr eiloes:  
Dean doeth a rôl i'r dyn dall  
Deunawrodd dean arall.

Adwen frawd i'r dean fry,  
Ail Abram o lâl obry:  
Dafydd, bedydd abadau,  
Daioni Nudd dan un iau.

Mae gweddi, mi a'i gwyddwn,  
Mil o saint ym mhalis hwn;  
Mynaich a rent, main a chrwys,  
Mintai rugl mewn tai'r eglwys.

Pab yw'r llall pawb o wŷr llên,  
Palis Deinioel, plas Dwynwen.  
Dywod un i'm diwyd iôr  
Dorri 'meingefn draw 'm Mangor.  
Cusan o'i dref a gefais,  
Clo fy min rhag clwyf o'm ais.  
Arglwydd Ddafydd, gwledd ddyfal,  
Ym a'i dug yma hyd lâl.  
Geneuber y'm gwnâi abad,  
Gan fin y Cyffin y'i cad.

Gorweiddiog o wŷr oeddwn,  
Gwyrthiau fy heiniau fu hwn.  
Gwnaeth feddyginiaeth o'm gên  
A'm trawschwch i'm tair asen.  
Mae o Wynedd ym ennaint  
Mal sens yr ugeinmil saint:  
Cusan y dean a dâl  
Cant einioes rhag haint anial.


Trwy wayw chwerw y tra-churiais,  
Triagl min a'i treigl o'm ais.  
Ni bu raid i'r barwyden  
Ennaint y Badd ond o'i ben;  
Nac oel gwyrdd nac eli gwan  
Nis ceisiaf yn oes cusan.

Esgudwas oesawg ydwyf,  
Ysgafn iach, ais gyfan wyf,  
Arwydd einioes ardduniant  
Yw dwyn sêl y dean sant.  
Myrr o'i fin ar fy marf fydd  
Mal tus dwy wefus Dafydd.  
Efengyl, wyf iefengach,  
A dyf nerth o'i deufin iach.  
*Pena et culpa* henaint  
Y pab yw hwn rhag pob haint.  
Pardwn o Eitwn ytyw,  
Pacs o nef pob cusan yw,  
Pwmpa annerch, pump einioes,  
Pren pêr yr haelder a'i rhoes.

GUTO'R GLYN  
(c.1412-1493)

ADOLYGIAD – LLYFR

## Cerdded mewn Cell Robin Llywelyn



**Dyma dair ar ddeg stori fer, pob un yn llawn dychmyg, yn annisgwyl a chwbl wreiddiol.** Mae'n anodd dychmygu neb ond Robin Llywelyn yn ysgrifennu'r rhan fwyaf o'r straeon. Nid

wyf yn or-hoff o straeon ffantasi fel rheol, ond mae'r straeon hyn mor ffraeth fel iddynt wneud argraff ddyfnach arnaf nag oeddwn wedi'i ddisgwyl. Roedd ambell stori yn apelio mwy nag eraill, sydd yn naturiol mae'n debyg mewn cyfrol o'r fath, ond waeth os oeddwn yn gwirioni gyda'r straeon ai peidio, anodd iawn yw eu hanghofio.

Anodd iawn, hefyd, fydd meddwl am gimychiaid yn yr un ffordd wedi darllen 'Hanes Dau Gimwch', dau Geidwadwr sydd wedi'u troi yn gimychiaid, a chanfod eu hunain mewn

tanc pysgod mewn bwyty yn ne Cymru wedi'u marwolaeth. Mae'r holl beth yn eithaf rhyfedd mae'n rhaid cyfaddef, ac mae'n rhaid ymroi i ddychymyg yr awdur er mwyn mwynhau'r stori hon. Llwydda'r sgwrs rhwng y ddau gimwch i fod yn ddychanol a bywiog. Drwy'r stori 'À L'Auberge De Ruztan' cawn ddarlun mwy cyflawn o'r bwyty, sydd llawn mor rhyfedd â'r ffaith fod dau Dori nawr yn gimychiaid. Dilyna'r stori hanes gohebydd bwyd Llygad y Dydd – papur newydd dyddiol cyntaf Cymru – a'i wraig, a'u profiad yn y bwyty. Cymer y stori sawl tro annisgwyl, a'r cwsmeriaid yn y bwyty yn dyst i hynny gan na pherthyn y stori i ffiniau amser, nag ieithoedd. Daw John Davies Mallwyd a chwyno am ddiffyg bwydlen Lladin, sydd eto'n adlewyrchu ffraethder Robin Llywelyn.

Teimlaf fod Robin Llywelyn ar ei orau yn y straeon tristach a thynnerach, gan iddo lwyddo i gyfleu'r profiad dynol ynddynt. Mae'r stori sy'n dwyn teitl y gyfrol wedi'i hadrodd gan wŷr a garcharwyd ar gam, gan sefydliad sydd ddim yn cynnig prawf teg ac yn arteithio'r rhai sydd dan amheuaeth. Mae dychymyg a realiti yn gymysg yma, a'r ffin rhyngddynt yn gymylog. Llwydda'r awdur i gyfleu annynoliaeth yma, yn ogystal â rhoi inni bersonoliaeth a

chymeriad y traethydd a gyhuddwyd ar gam.

Mae'r un tynerwch i'w gael yn 'Calon Segur', lle clywn am hanes Marianig y forwyn, a dreisiwyd, yn ôl y traddodiad, gan Iarll y Castell. Daw ymchwilydd ar draws yr hanes ymhen degawdau, ond yr un yw awydd y teulu presennol i guddio'r hanes. Ni ellir osgoi'r dylanwadau cyfandirol, hanesyddol a Beiblaidd sydd yn gyfrol. Mae'r dylanwad llenyddol i'w weld yn amlwg yn 'Stori a Ddiflannodd', wrth i ni gael ein hailgyflwyno i Jini Bach Pen Cae (*Un Nos Ola Leuad*, Caradog Prichard). Ni wn a yw hyn yn feirniadaeth yntau canmoliant, ond rhaid yw darllen sawl un o'r straeon fwy nag unwaith er mwyn eu llawn ddeall a'u gwerthfawrogi, ac mae'r Stori a Ddiflannodd yn un o'r rhai hynny.

Ar yr olwg gyntaf ymddengys y straeon yn gwbl bisâr, o fethu â darganfod ansoddair gwell, ond wrth ollwng eich hunain i'r bydoedd a grëid gan Robin Llywelyn haws yw gwerthfawrogi'i waith.

**Y Lolfa – £8.99**



CYFWELIAD

## Y Brain / Kargalar Meltem Arıkan

**Ar bnawn Ionawr digon pig, mentrodd un o olygyddion y Stamp i un o daflodau llychlyd y Chapter i ymuno ag ymarferion cynhyrchiad diweddaraf y cwmni Be Aware Productions; *Y Brain / Kargalar*.**

Mae'r stafell wedi ei goleuo'n binc, gofod gwag un pen i'r stafell, a swyddfa dros dro, yn fagiau a chotiau a chyfrifiaduron a phentyrrau o bapur y pen arall. Mae sgysiau mewn tair iaith yn digwydd rhwng amrywiol aelodau'r cwmni — y Gymraeg a'r Saesneg, gyda Thwrceg yn ychwanegiad newydd i'r gymysgfa arferol.

A dyna ddod at un o nodwed-dion amlyca'r cynhyrchiad uchelgeisiol hwn, sef fod y ddrama yn un ddwyieithog, gyda un actor yn siarad un iaith, yr ail yn siarad iaith arall, a'r un o'r ddwy yn deall iaith y llall. Gwaith y dramodydd Twrceg Meltem Arıkan yw *Y Brain / Kargalar*, a gyda hi y bu ein golygydd yn sgwrsio. Mae hi'n un o'r tri o alltudion Twrceg sy'n ran o'r cynhyrchiad — mae hi, ar y cyd â'r cyfarwyddwr, Me-

met Ali Alabora ac un o'r actorion Pınar Ögün wedi eu cyhuddo o derfysgaeth yn ôl yn eu mamwlad. Dros goffi yng nghaffi swnllyd y Chapter, aeth ein golygydd ati i holi Meltem am ei gwaith.

**Felly, i gychwyn, ar gyfer y rhai sydd heb weld y ddrama, allwch chi ddweud rhywfaint am be mae hi?**

la, felly Kargalar, y brain. A dweud y gwir, rhyw dair neu bedair mlynedd yn ôl y penderfynom ni wneud drama am ein hanes (fi, Pınar a Memet). Sef sut y daethom ni yma, a be ddigwyddodd. Fi ydi'r un cyfrifol a difrifol fel arfer, ac mae Pınar wastad yn fy nhystio i. Ond pan ddaethom ni yma, ar ôl teithio am 24 awr, mi wnes i drawsnewid i rywun hapus a phlentynnaidd. Roedd Pınar yn rhwystredig a phryderus wedi cyrraedd yma, achos nad oedd ganddo ni le i aros, ac roeddem ni wedi gadael Twrci mewn un noson, a gadael popeth oeddem ni'n ei garu yno. Ond yn lle bod yn bryderus a thrist, roeddwn i'n hapus iawn! Felly dyna'r syniad, achos roedd o mor ddoniol, neu falle nad doniol, ond diddorol, pan oedden ni'n esbonio'r hanes i bobol, roedden nhw i weld yn mwynhau, felly

dyma benderfynu gwneud drama am yr hanes.

Ond wedi hynny bŵm i trwy fwy o drafferthion, mwy o dristwch— collais fy ngŵr, ac roeddwn yn meddwl mod i wedi colli fy mhwyll. Dechreuais i gerdded yn ddyddiol, 6 awr ar y lleiaf. O gwmpas ein cartref i ddechrau, lle mae coedwig fechan. Byddwn yn cerdded yno, neu weithiau'n mynd i ogledd Cymru ac yn cerdded yno. Roedd Memet yn fy ngwylio, ac un diwrnod dwedodd 'Fy Meltem, dwi ddim eisiau gwneud unrhyw ddrama arall, dwi eisiau gwybod be sy'n digwydd yn dy ben di, am be wyt ti'n feddwl amdano am chwech awr bob diwrnod? Dwi'n gweld ti'n newid bob dydd, a dwisho gwybod be sy'n styrian yn y pen yna, alli di ei sgwennu fo i mi?' Dwedais innau 'Fydd o ddim yn hawdd!' A dwedodd o 'lawn, ond beth am i ni roid tro arni?'

Ac felly dyma fynd ati i wthio fy hun, i fod yn gwbwl onest, ac i nodi pob gair, am sut ydw i'n teimlo, sut ydw i'n meddwl, beth ydi fy mhroses feddwl. A dyna greu'r ddrama. Ond, tydi hi ddim yn ddrama amdana i, mae hi am fath o ddynes yn ceisio darganfod hi ei hun tra ar yr un pryd yn canfod i le mae'n perthyn, a beth ydi ystyr perthyn. Achos fel

dynes, dwi'n meddwl fod ein sefyllfa ychydig yn anoddach na sefyllfa dynion, achos dydi hi ddim ots lle wyt ti'n cael dy eni, mae gan ferched wastad restr, fel rhestr to-do, ac mae'n effeithio arno ni.

Felly fy mhroses i ydi dadwisgo, ymnoethi o flaen y rhestr yna. Mae'n ddiddorol i mi sut mae merched eraill yn gwneud hyn, oherwydd does dim ots os yda ni'n defnyddio iaith wahanol, neu os ydi ein diwylliant yn wahanol, oherwydd ryda ni mor debyg, yn ein poen a'n hymdrechion. Dwi'n meddwl, petaen ni'n sylweddoli hynny, fe fyddde ni'n teimlo'n agosach.

**Ai dyna pam mae cael dwy iaith yn bwysig yn y ddrama? Achos dydi'r actorion yn llythrennol ddim yn deall ei gilydd, ac mae'n nhw'n cynnal y sgwrs 'ma o fewn y ddrama mewn dwy iaith wahanol. Ai'r profiad benywaidd cyffredin hwnnw sy'n eu galluogi i gyfathrebu?**

Yr hyn ydw i'n ei gredu ydi ein bod ni'n deall ein gilydd y tu hwnt i eiriau. Wrth gwrs ein bod ni angen geiriau i ddeall, ond beth ddigwyddodd wrth i iaith ddatblygu, ydi i'r ddynes gyntaf greu geiriau am ei bod yn gwylio'r anifeiliaid, ac angen cyfathrebu, ac felly'n defnyddio'r sillafau sylfaenol 'na, ma, mo, mw', ac ati, i'w troi yn eiriau. Beth ddigwyddodd wedyn ydi fod y dynion wedi dwyn y geiriau hynny, a chreu cysyniadau a brawddegau ac elfennau cymhlethach. Felly defnyddiwyd y tŵls a greasom i ddeall ein gilydd i greu ffordd wahanol o gyfathrebu. Felly be ydw i'n ddweud ydi oes, mae angen geiriau, ond gallwn ni ddeall ein gilydd y tu hwnt i eiriau. Ac fel merched, dwi'n credu fod ganddo ni gysylltiad cryfach â byd natur na dynion.

**Felly o ran y cymeriadau yn y ddrama, y mae cymeriad Tem yn cynrychioli'r rhan Gymreig ohonoch chi, a Mel yn cynrychioli yr ochor Dwrcaid. Tem hefyd sydd â'r cysylltiad cryf yma efo byd natur. Pam nad oes gan Mel, y cymeriad Twrcaid, yr un cysylltiad â natur? Oedd o'n ymwneud â symud i Gymru?**

Pan oeddwn i'n ifanc roeddwn i'n caru byd natur. Roeddwn i'n eithaf drygionus — dwedwn i fy mod i'n blentyn ychydig bach yn anodd fy nhrin, a doedd neb wir yn gwybod sut i ddelio efo fi. Ond wedyn dyma ni'n cael y ddamwain lle collais i fy mam, ac fe newidiodd pethau, a doeddwn i ddim yn medru treulio cy-maint o amser ym myd natur.

Wedi hynny dechreuais ddysgu,

darllen ac ysgrifennu ar fy mhen fy hun. Dechreuais yn yr ysgol gynradd yn bump oed, yn medru darllen a sgwennu yn barod. Collais fy mhlentynod ar oed cynnar, ac am ein bod ni ym myd y ddinas, doedd na ddim llawer o gyfleoedd i fod ym myd natur, a wedyn roeddwn i'n teenager, ac mi ddechreuais i weithio yn 17 oed ar ôl gorffen yn y brifysgol. Mi wnes i bopeth ar oed ifanc iawn. A wedyn dyma fi'n dod yn berson difrifol, 'freedom fighter', ysgrifennwr am drais yn erbyn merched, dynes. Bob blwyddyn roeddwn i'n mynd yn gryfach, ond hefyd yn fwy caled, ac mi gollais fy nghysylltiad â byd natur.

Dyma pam dwi'n meddwl rwan wrth edrych yn ôl, dwi'n dallt pam i mi fynd yn fwy caled a difrifol. Mi gollais i fy llawenydd, ac fe fues i'n sâl iawn yn ôl yn Nhwrcei. Nawr dwi'n deall pam, oherwydd i mi golli y rhan arall ohona i, y rhan efo'r cysylltiad cryf â byd natur. Mi wnes ei ailddarganfod bymtheg mlynedd yn ôl yn Aberhonddu, ar ôl mynd yno ar gwrs dysgu Saesneg. Dyna'r tro cyntaf i mi sylweddoli 'o fy nuw, dwi wedi colli ryw rhan ohona i'. Ailddarganfyddais y rhan hwnnw yng Nghymru, ac wedi hynny roeddwn i eisiau byw yng Nghymru, bron fel petai'r wlad fel mam i mi.

**Beth yw arwyddocâd y brain yn y ddrama?**

Pan oeddwn i'n cerdded, byddwn i'n gweld y brain hyn o fy nghwmpas drwy'r amser, ac nid fel cyd-ddigwyddiad, ond fel petaen nhw wastad efo fi. Os na fyddwn i'n ei gweld nhw, mi fuaswn i'n teimlo fel bod rhywbeth o'i le, yn meddwl — lle maen' nhw? Dwi wastad yn chwilfrydig pam fod anifeiliaid fel petae nhw'n dy ddilyn di, a be mae'n ei feddwl, felly pan fo'r brain wastad yno, a dwi'n eu gweld nhw, dwi'n teimlo'n gyfforddus. Ar ôl sgwennu'r ddrama roeddwn i'n cerdded ar hyd a lled Cymru, yn enwedig ar y mynyddoedd, a bob tro mi fyddwn i'n sbïo i weld os oedd y brain yno, ac roedd hynny'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel.

**Mae hynny'n ddiddorol — achos yn draddodiadol, mae brain yn tueddu i gael eu hystyried fel symbol eitha tywyll, bygythiol, ond yn yr achos yma mae hynny wedi ei wyrdroi?**

Yndi ond nacdi! Os wyt ti'n sbïo'n ôl i gyfnodau cynharach, y brain sy'n gwar-chod y duwiesau. Mi newidiodd hynny wrth i hanes esblygu, pan ddaeth gwyrachod yn bethau brawychus, a newidiodd y brain hefyd i gynrychioli

marwolaeth ac arswyd. Ond i fi, dwi wastad yn teimlo'n gyfforddus, fel petaen nhw wedi fy amddiffyn.

**Ydi eich gwaith chi i gyd yn hunan-fywgraffiadol, neu oes yna fwy o brofiadau personol yn y gwaith hwn nag oedd yna mewn gwaith blaenorol?**

Roedd 'enough is enough' yn ddarn o theatr gig, ac yn hollol wahanol, ond dal yn real — dwi'n hoffi gweithio efo realaeth, achos dwi'n meddwl fod realaeth yn cyffwrdd mwy o bobol. Pan ddois i Gymru yn gyntaf roeddwn i yn gwneud ymchwil ar drais yn erbyn merched a llosgach yn y wlad hon. Roeddwn i'n ymchwilio am flwyddyn, ac roedd o i gyd yn straeon go iawn am gam-drin plant a merched ym Mhrydain a Chymru. Wrth imi gasglu y straeon, roedd rhai yn troi i fewn i ganeuon, rhai yn gerddi, rhai yn straeon. Roeddwn i jest yn sgwennu, a dyma Memet yn dweud 'rwy'ti'n sgwennu llwyth o ganeuon, be am wneud hon yn sioe theatr gig?' a dyna ei syniad, felly dyma ni'n creu 'girl band'. Roedd y sioe felly fel mynd i gyngerdd, nes yn sydyn rwy'ti'n dechrau clywed straeon rhyfedd. Felly doedd o ddim amdana i, ond am faterion merched a straeon go iawn.

Ond y tro yma, mae o i gyd amdana i. Mae'n rhyfedd siarad am hynny, a dweud ei fod o amdana i.

**Mae'n siŵr fod hynny'n brofiad eithaf diamddiffyn — sut oedd hynny'n teimlo?**

Wel, yr esboniad gora, nid fy esboniad i ydi o. Roedden ni ynghanol ymarferion y daith yma ac wedi bod yn teithio ar hyd Cymru. Daeth dynes hyfryd iawn i un o'n hymarferion, oedd yn ein nabod ni o *enough is enough*. Ar ôl yr ymarfer daeth hi ata i a dweud 'O fy nuw, ryda chi wedi agor eich fylfa o flaen y byd, mae o mor gryf a chaled!'. Dwi'n meddwl mai dyma'r esboniad gorau i gyfleu'r teimlad o fod mor frau a diamddiffyn.

Os ti'n medru rhoi pellter rhyngddo ti a'r gwaith, mae o'n ok. Weithiau, mae pobol yn siarad a dweud 'o na, mae hwnna'n anghywir, dydi o ddim yn wir' a dwi fel 'daliwch am funud, am be yda chi'n sôn, fi ydi hwnna, fy nheimladau! Sut allwch chi ddeud ei fod o'n anghywir, ei fod o'n ffuglen?'. Felly dwi wedi gorfod dysgu sut i bellhau. Ond felly mae hi efo drama — erbyn hyn, nid fy mhroses feddwl i sydd wrth waith. Mae'n ddrama y mae Memet wedi ei chyfarwyddo, McKenzie wedi coreograffu, ac felly nid fi pia fo erbyn hyn. Ond mae'n anodd. Dwi wastad wedi

dweud fod bod yn sgwennwr fel bod yn noeth o flaen dy gynulleidfa, ond rŵan dwi'n meddwl dwi'n gwneud hyn yn iawn am y tro cynta. Dwi'n noethlymun gorcyn ar y llwyfan!

**Mae'r bartneriaeth rhyngoch chi, Memet a Pinar i'w weld yn bwysig iawn — mae llawer o'r gwaith i weld wedi ei wneud ar y cyd rhwng y tri ohonoch chi. Beth yw hanes y bartneriaeth honno?**

Dwi'n nabad Pinar ers ei bod hi'n ei harddegau yn Ankara, felly mae hi fel merch i mi. Pan symudon ni i Istanbul, mi briododd Pinar a Memet, ac fe aethom ni i fyw efo'n gilydd — nid yn yr un tŷ, ond gan rannu gardd. Ac roedd Pinar wastad yn dweud 'Meltem, dylet ti sgwennu drama i mi, dylet ti sgwennu drama i mi', yn holi a herian trwy'r amser. Felly pan ddechreuais i ysgrifennu dramâu, yn naturiol, dechreuodd Pinar actio ynddyn nhw, ac roedd Memet yn cyfarwyddo, ac roedden ni'n cael mwynhad o weithio a chreu gyda'n gilydd.

**Mae'r ddrama mewn Cymraeg a Thwrceg, sy'n gymysgedd anarferol. Pryd wnaethoch chi benderfynu fod y ddrama am fod yn un ddwyieithog?**

Pan benderfynais i sgwennu'r ddrama yma, o'r drafft cynta, roeddwn i'n gwybod mod i eisiau i un o'r cymeriadau fod yn Gymraeg, am ei fod o'n cynrychioli'r rhan arall ohona i. Mae'n ddiddorol, os wyt ti'n dangos dau ran, a'r ddau mewn ieithoedd gwahanol, achos dwi'n credu fod gan bawb y gwahanol rannau hyn, yn siarad efo ni mewn ieithoedd nad ydan ni weithiau yn eu deall.

**Ond dyda chi ddim yn siarad Cymraeg?**

Nac ydw, dwi newydd ddechrau dysgu, a dydi hi ddim yn hawdd achos dydi fy Saesneg i ddim yn berffaith. Roedd rhaid i mi wthio fy hun i ddysgu Saesneg, ac roeddwn i'n ei gasáu, ond wrth ddysgu Cymraeg mae'n wahanol, dwi'n meddwl y dysga i Gymraeg lawer ynghynt am fy mod i wirioneddol eisiau ei ddysgu, tra mod i wastad wedi gwthio yn erbyn y Saesneg.

**O le yda chi'n meddwl mae'r cysylltiad, neu'r teimlad hwnnw o berthyn efo'r Gymraeg wedi dod?**

Wn i ddim, ond wyddost ti be wnes i? Pan ddois i yma i ddechrau i Fannau Brycheiniog, ar ôl y noson gynta deffrois i'n crio, yn teimlo mod i'n perthyn. A wnaeth y

teimlad yna 'rioed fy ngadael i — i'r gwrthwyneb, mae'n cryfhau.

Rhywbeth doniol — pan oeddwn i yn Nhwrci, roeddwn i wastad yn coginio cennin. Dwi wrth fy modd efo cennin, wastad yn eu coginio. A ninnau newydd symud yma i Gymru, roedd Pinar yn holi, 'Meltem, be wyt ti am ei goginio?' a ffinna'n ateb

'Cennin, wrth gwrs!'

'O na' meddai hi; 'dim ar ein noson gynta ni yma!'

'Ia' medda fi, ac i ffwrdd a hi.

Roedd hi'n meddwl y buase hi'n medru dod o hyd i lyfr coginio i mi, er mwyn i mi goginio pethau newydd, a bwyd Cymreig. Aeth i siop lyfre a gofyn am lyfr am fwyd Cymraeg, a dwedodd y siopwraig 'Cariad, jest pryna gennin!'. Pan glywodd hi hynny roedd hi methu credu'r peth. Daeth hi adre a dweud 'Meltem, mae hyn yn od, ond dwi'n meddwl bo ti'n Gymraeg!'

**Sut oedd mynd ati i sgwennu drama mewn iaith nad ydach chi'n ei deall?**

I ddechrau, sgwennais y cwbbwl mewn Twrceg, cyn cyfieithu i'r Saesneg. Wedyn aeth Sharon [Morgan] ati i gyfieithu'r cyfan i'r Gymraeg. Aethom ni drwy'r ddrama air am air efo Saesneg fel pont,



oherwydd weithiau dydi Saesneg ddim yn ddigon i gyfleu dy deimladau di. Mae Saesneg yn iaith gysyniadol; fedri di egluro pob cysyniad yn Saesneg yn berffaith, yn well na mewn Twrceg. Ond mae Twrceg, yn debyg i'r Gymraeg, yn iaith fwy emosynol. Allu di ddim egluro pob cysyniad yn berffaith, ond mi fedri di egluro dy deimladau i'r dim. Felly mi gafo ni drafferth, oherwydd fod na ddim geiriau weithiau yn Saesneg, felly roedd rhaid esbonio er mwyn iddi addasu i'r Gymraeg. Roedd hi'n broses hir a chaled, weithiau'n treulio awr ar ddim ond un gair!

### Felly beth ydi eich perthynas efo Twrci heddiw?

Does gen i ddim perthynas, yn anffodus. Yn Nhwrci maen nhw wedi dod ag achos yn ein herbyn ni (Meltem, Pinar a Mehmet), wel yn erbyn 16 o bobol a dweud y gwir, ni'n tri yn eu plith. Mae hyn yn mynd yn ôl i'r ddrama *Mi Minor*. Maen nhw'n ein cyhuddo ni o fod yn sefydliad

terfysgol ar sail y ddrama honno! Y cwmni theatr cyntaf i cael y fath gyhuddiad yn eu herbyn, mae'n siŵr! Felly rŵan mae 'na warrant i'n harestio yn Nhwrci ac mae'n amhosib i ni ddychwelyd, felly mi wnawn ni weld beth ddigwyddith gyda'r achos. Mae Twrci yn le stressful rŵan, efo llawer o newyddiadurwyr a myfyrwyr yn y carchar. Rydan ni'n gwyllo Twrci o bellter, a dyna ni. Ond dwi'n ok, dwi adre, dwi'n saff. Dwi'n meddwl am y wlad lle tyfais i fyny, a'r iaith — dwi'n caru'r iaith Dwrcaidd. Ond o ran y lle, dydw i ddim yn perthyn. Mae pobl yno yr ydw i'n eu caru, ac y mae gen i gysylltiad â nhw; ond fel arall, dyna ni. Dwi ddim eisiau mynd yn ôl, hyd yn oed os bydd hi'n saff. Dwi'n meddwl y bydda i'n byw yma am byth. Mi fyddai'n awdur Cymreig!

Ond dwi'n caru Twrceg, hi yw fy iaith gyntaf, ac mae'n teimlo'n annheg i'w hanwybyddu, achos mae rhan ohona i — sut dwi'n meddwl, a theimlo, yn Dwrceg, felly alla i ddim anwybyddu'r rhan hon.

### Ydi hi'n rhwystredig ysgrifennu mewn Twrceg, mewn gwlad lle nad oes llawer o bobol yn siarad yr iaith? Efo pwy yda chi'n siarad pan yda chi'n sgwennu rŵan?

Mae'n anodd i mi geisio ailddechrau rŵan yn y Saesneg, ond rydw i'n gwthio fy hun ac wedi dechrau cyfieithu fy ngwaith i'r Saesneg, ond bydda i wastad yn sgwennu mewn Twrceg i ddechrau. Un diwrnod, hoffwn i sgwennu yn y Gymraeg, achos er mwyn mynegi dy hun mewn iaith mae angen cysylltiad cryf. Tydw i erioed wedi teimlo'r cysylltiad yma yn y Saesneg.


>> [meltemarikan.com](http://meltemarikan.com)

>> [beawareproductions.com](http://beawareproductions.com)

Cynhaliwyd y cyfweiliad uchod trwy gyfrwng y Saesneg gan Grug Muse ar ran *Y Stamp*, Ionawr 2019.

ADOLYGIAD – LLYFR

## Tacsi i'r Tywyllwch Alun Cob



Mi gyrhaeddodd y nofel drwy'r post, a phenderfynais ddarllen pennod ohoni'r noson honno er mwyn cael blas ohoni. Awr a hanner yn ddiweddarach, roeddwn yn dal i'w darllen – a dyna

sylyfaen gweddill fy mhrofiad o'r nofel.

Dilyna'r nofel hanes Madog Roberts wrth iddo fynd o gwmpas ei ddefodau dyddiol mewn bywyd, y busasi'n deg eu disgrifio fel rhai digon dinod. Yn annisgwyl, daw ei gyn-gariad, Rhiannon, yn ôl i'r fei ac yn ei sgil, taflu Madog i ganol is-fyd tywyll Adrian Jordan a'i gynllwynio manwl. Yn ogystal, cawn ein cyflwyno i hoelen wyth ei ymerodraeth anghyfreithlon: Bojan Simonović.

Cyflwyno Alun Cob ei gymeriadau yn unigol fesul pennod i ni, gan roi safbwynt person cyntaf y cymeriadau. Mae hyn ar adegau yn ymdebygu i gasgliad o straeon byrion. Trwy ddilyn y

drefn yma, mae diddordeb y darllenwr yn cael ei gynnal gan fod y llinyn storïol wedi ei dorri yn ddarnau mwy hylaw, pob un yn disgrifio'r cyd-destun yn gynnil i'r darllenydd heb ymhelaethu yn ormodol.

Gwelwn un enghraifft o'i gynildeb wrth ddisgrifio cyflyraeth trwy ddulliau meddygol ar un o'r cymeriadau dan law gweision Bojan Simonović:

...yna'r pigiad melys. Cododd cynhesrwydd yn don angylaidd drwy ei gorff. ... Roedd o'n gallu teimlo'i enaid yn gwenu. Doedd o ddim yn gallu teimlo'i wefusau i wenu, ond roedd ei holl gorff yn wên.

Drwy hynny, does dim angen ymhelaethu; gallwn ddychmygu'r olygfa o'n blaen. A dyna ran o apêl y nofel, sef y gallu i ddisgrifio mewn modd cynnil, sydd yn dal sylw'r darllenydd.

Yn y sefyllfa wleidyddol sydd ohoni, mae hon yn nofel amserol iawn. Mae Bojan Simonović yn fewnfudwr o Bosnia sydd yn gyfrifol am gangen o is-fyd pan-Ewropeaidd. Mae Rhiannon yn cuddio ei merch yn Seland Newydd, ac Adrian Jordan yn cynnal ei ddiwydiant rhyw ar lafur merched o Ewrop. Gwelwn yr haenau yn plethu i'w gilydd a'r patrwm yn dod i'r amlwg wrth iddo gyflwyno'r cymeriadau yn unigol, a'r naws ryngwladol yn dod i'r amlwg mewn modd naturiol a chredadwy.

Wrth ddilyn ôl-troed arddull awduron megis Llwyd Owen a Dewi Prysor, mentra'r awdur o dan y wyneb i is-fyd tebyg i'r rhai y disgrifia'r awduron hynny yn eu gweithiau. A theg yw dweud fod safon y nofel hon cystal â'u gweithiau nhw. Fodd bynnag, un man gwan yn fy marn i oedd y diweddglu sydyn, annisgwyl – teimlaf bron fel petai ychydig o frawddegau neu bennod ar goll wrth ddod at y terfyn, cymaint oedd difrifoldeb yr olygfa. Ar y llaw arall, mae hynny yn brawf o ddawn yr awdur o godi awch y darllenydd am ragor.

A'r ddawn honno i ddisgrifio a geir gan Alun Cob sydd yn llwyddo i ddod â'r nofel yn fyw i'r darllenydd, gan gynnwys naratif modern cyfoes o'r Gymru sydd ohoni. Teimlaf ar adegau bod gormod o bwyslais ar nofelau traddodiadol sydd yn ceisio portreadu delwedd o Gymru sydd wedi ei wreiddio yn 1950au ar draul gweithiau mwy cyfoes megis y nofel hon, – nid darn Blytonaidd mo hon, ond nofel sydd yn portreadu'r trawstoriad eang o ddiwylliannau sydd yn bodoli bellach yn y wlad. Ar sail hynny, mynnwch eich copi chi!

**Gomer – £8.99**

# Gollwng Stêm Lliwen Glwys

Gwyliai Hanna'r dorf yn sgrialu fel morgrug yn y ddinas boblog a myglyd oddi tani drwy'r ffenestr banoramig ar y pedwerydd llawr. Roedd y strydoedd yn orlawn o bobl, sbwriel, ceir a chymylau llygredd llwyd. Poerai'r cymylau duon dalpiau mawr o law oeraidd yn ddirugaredd ar y ddinas wrth i wynt rhewllyd mis Ionawr chwipio'n ffyrnig, a rhuthrai'r bobl heibio'i gilydd yn wyllt wrth geisio chwilio am loches. Cymerodd Hanna lymaid o'i choffi moethus ond chwerw na allai unrhyw faint o siwgr ei felysu. Roedd gwyllo pobl yn gysur iddi rywsut; braf oedd cael hoe rhag prysurdeb bywyd a dychmygu cefndir yr unigolion yn y dorf islaw.

Roedd Buddug yn ffasiynol o hwyr, fel arfer; yn gorwynt o liwiau wrth iddi ruthro i mewn i'r caffi yn llawn ffws a ffwdan a'i ffrinj yn chwifio yn ôl ac ymlaen ac yn bwrw ei thalcen gyda phob cam.

'One large sugar-free Vanilla Latte with soy milk and a caramel drizzle on top please' – ochneiodd Buddug. 'Keep the change,' meddai gan daflu papur pumpunt ar y cownter yn ddiolofal cyn brasgamu at y bwrdd lle eisteddai Hanna, gan geisio peidio â cholli'r baned yn ei llaw.

'Ddim 'mod i'n ddramatig na'm byd 'de, ond heddiw oedd diwrnod gwae-tha 'mywyd i erioed!' ebychodd Buddug gan chwyrlio'i llaw fel melin wynt cyn syrthio'n swp i'r gadair fach bren.

'Be ddigwyddodd tro 'ma te?' chwarddodd Hanna'n ysgafn, gan estyn am ei phaned ar y bwrdd.

'O arhosa funud, gad i mi dynnu llun o'r coffi 'ma gynta!' meddai Buddug gan estyn ei ffôn o'i bag llaw. Yr un rwtîn bob tro i geisio dod o hyd i'r 'ongl berffaith' er mwyn rhoi llun ar Instagram.

'hashtag catch-up, hashtag coffi, hashtag ffrindia', ma' hynna'n iawn 'dydi?' holodd Buddug gan dapio sgrîn ei ffôn â'i hewinedd taclus.

Cymerodd Buddug un llwnc mawr o'i diod gan adael staen minlliw porffor siâp hanner lleuad ar rimyn y cwpan blodeuog, cyn cymryd anadl ddofn a chyhoeddi:

'Reit, so bêsicli ia dyma be sy 'di digwydd tro 'ma ...'

A dyna fu dechrau'r ddrama fer wythnosol. Gwyddai Hanna y byddai hi wrthi'n traethu am sbel. Cwpanodd Hanna ei diod yn ei dwylo a theimlai'r cynhesrwydd yng nghledr ei llaw yn ymledu fel crychau ar lyn, hyd at flaenau ei bysedd. Estynnodd y cwpan tuag at ei gwefusau awchus a chroesawai'r stêm oedd yn llenwi ei ffroenau.

'A gesia be' ddaru o wedyn ta!  
*Listen to this ...'*

Eisteddodd Hanna'n fud yn gwrandao ar Buddug yn hefru a rhuo a'i gwefusau piws yn parablu bymtheg y dwsin wrth iddi gyfleu gymaint o 'fastard' oedd y bachgen diweddaraf yn ei bywyd carwriaethol. Roedd Hanna'n falch nad oedd hi ar y farchnad sengl ar ôl gwrando'n gegrwyth ar holl helyntion Buddug.

'Reit, go-iawn tro 'ma de, dwi jest ddim isio gweld r'un dyn eto am sbelan a jest isio joio neud petha efo'n ffrindia ...' datganodd Buddug fel pe bai'r bregeth yn dod tua'i therfyn. Ddywedodd Hanna ddim byd, dim ond codi ei haeliau a syllu arni'n goeglyd – gwyddai'r ddwy ohonyn nhw y byddai'n cwrdd â dyn arall ymhen wythnos neu ddwy.

'Wel am 'chydig o leia ...' ychwanegodd Buddug, fel pe bai wedi ail-ystyried yn barod!

'Dwyt ti'm angen cariad i fwynhau dy hun cofia,' meddai Hanna yn llawn doethineb.

'Ond dwi'n BORED ar ben fy hun! Mae'n iawn i ti - os wyt ti isio mynd am ddrinc neu ddau, neu awydd mynd i'r sinema, neu mynd i ffwrdd am wicend neu be' bynnag, elli di jest gofyn i Gethin achos ti'n gwybod eith o efo ti,' atebodd Buddug yn amddiffynnol.

'Ond ti wastad 'di deud bod ti'm isio cariad!' chwarddodd Hanna. 'Wyt ti'n dechra' troi'n sofft?' holodd yn chwareus.

'Wel dwi ddim isio un rili – dwi jest awydd cwmni rhywun,' atebodd Buddug, 'a sylw wrth gwrs!'

'Tydi 'nghwmni i ddim digon da i ti felly na?' tynnodd Hanna ei choes.

'O paid â malu awyr y gloman wirion! Ti'n gwobod be dwi'n feddwl!' chwarddodd Buddug yn ysgafn. Oedd Buddug am ennyd cyn datgan: 'wir wan, 'sgen ti'm syniad gymaint o ryddhad ydi gallu jest rantio am y stwff 'ma i chdi, achos dwi'n gwobod 'wnei di fyth 'meirniadu i – ddim ots faint o het wirion ydw i ar adeg!'

'O'n i'n iawn, ti yn troi'n sofft!' chwarddodd Hanna. 'A chroeso unrhyw bryd – be' ma' ffrindia'n dda? Ta waeth – ma' gwrandao ar dy straeon wythnosol yn fwy difyr a diddan nag unrhyw opera sebon! Ti'n gwobod be' ti angen wan i neud i chdi deimlo'n well 'dwyt?'

'Be?'' holodd Buddug.


'Coctêl neis,' atebodd Hanna, 'neu ddau!'


'Ow, wna i'm deud 'na' i sex on the beach! What am I like!' rhuodd Buddug a chodi'i dwylo i'r awyr yn llawn drama.

'Ow Buddug – dwyt ti ddim ffit!' chwarddodd Hanna.

Buddug oedd y tonig gorau i godi hwyliu unrhyw un ac ni wyddai Hanna beth a wnaethai hebddi. Chwarddodd y ddwy i mewn i'w paneidiau'n rhadlon cyn gofyn am y rhestr 'coctêls'. A dyna lle bu'r ddwy yn ymgolli yn eu bychanfyd; yn gollwng stêm yn eu swigen fach gysurus nhw a oedd yn feddyginiaeth i straen a helyntion bywyd; yn trysori melysrwydd cyfeillgarwch wrth i'r haul melyn-borffor suddo yn yr awyr gan ildio i dywyllwch melfedaidd y nos.









ar yr ymyl  
cymaint mwy  
i'w weld



diwrnodau rhwng breuddwydion rhwng diwrnodau



trwy heddiw  
i arogl doeau  
llifio coed



beunyddi nawr ble bynnag yr awn

(o'r dudalen flaenorol)

Yn dilyn rhannu ffoto-haiku (neu haiga) gan John Rowlands a Morgan Alun ar wefan *Y Stamp* fis Tachwedd 2018, gofynnwyd am fwy o'u gwaith ar gyfer y rhifyn hwn:

Mae 'na fersiynau Saesneg o ambell un wedi ymddangos ar **chrysanthemum-haiku** mor bell yn ôl â rhifyn 19, efallai ... Ro'n i ar fath o ymgyrch i gael Cymraeg am y tro cynta ar y gwefannau haiku. Yn anffodus, ceir gormod o ddelweddau sentimental ar brydiau ar y gwefannau hyn. Dywed y gwybodusion fod angen i'r ddelwedd fod yn gyflenwol i'r haiku ac nid yn amlwg ddarluniadol. Rwy'n hoff o'r ddiffiniad ar wefan **cattails** (the United Haiku and Tanka Society).

Cynhwyswn aralleiriad bras o'r diffiniad hwnnw yma er budd ein darllenwyr:

Ffurf yw'r **Haiga** sy'n cyfuno delwedd a cherdd. Yn yr oes a fu, roedd yr Haiga Siapaneaidd draddodiadol yn cyfuno paentio â brwsh, haiku, a chaligraffeg. Heddiw, maent yn fwy tueddol o gynnwys paentiadau neu ffotograffau, a chael eu hadnabod fel **ffoto-haiga** neu **shahai**. Gall y gerdd gael ei hysgrifennu â llaw neu ei gosod dros y ddelwedd gyda chymorth dyfais ddigidol.

Mae'r cyfuno hwn yn cyfoethogi'r hyn sydd gan y ddelwedd a'r gerdd ill dau i'w ddweud heb fod un yn bwrw'r llall i'r cysgod. Un o nodweddion amlycaf yr haiga yw osgoi disgrifiadau rhy uniongyrchol e.e. nid oes angen defnyddio delwedd o ddail i gyfannu haiku ar ddail.

**Mae'r haiga yn gyfuniad cynnil ac effeithiol o elfennau gweledol a geiriol.**

Gallwch ddarllen trafodaeth ddifyr â John ar yr haiku Gymraeg yn **Barddas Gwanwyn 2018** - '*Barddas yn holi haic'wiwr*'. Mae erthygl wych hefyd gan John ei hun ar wefan y *Wales Haiku Journal* - '*Transcreating*'.

Wedi eich hysbrydoli i fynd ati i greu eich haiga eich hunain? Byddai'r stampwyr wrth eu boddau yn gweld eich cynigion.

>> [waleshaikujournal.com](http://waleshaikujournal.com)  
>> [cattailsjournal.com](http://cattailsjournal.com)

## Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Cwrs Cynganeddu Preswyl  
Dydd Llun 13 - dydd Gwener 17 Mai 2019


Ymunwch â'r tiwtoriaid, Peredur Lynch a Karen Owen, ar gyfer cwrs carlam ar y gynghanedd. Byddwn yn rhannu'n ddau grŵp ar sail profiad, a bydd cyfle i ddysgu am hanes y grefft ynghyd â chymryd rhan mewn gweithdai dwys i'w hymarfer.

Encil Y Stamp  
Dydd Gwener 6 - dydd Sul 8 Medi 2019

Ymunwch â chriw golygyddol Cylchgrawn Y Stamp ar gyfer encil creadigol yn Nhŷ Newydd. Nod y penwythnos fydd creu cylchgrawn o glawr i glawr. Mae croeso i bawb, yn enwedig awduron, beirdd, dramodwyr, ac artistiaid.

Am ragor o wybodaeth, ac i archebu eich lle, ewch i:  
[www.tynewydd.cymru](http://www.tynewydd.cymru)

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 0LW  
01766 522 811 / [tynewydd@llynyddiaethcymru.org](mailto:tynewydd@llynyddiaethcymru.org)





smo7oo

ah

ppab5



# CYFARWYNDIADAU PLYGI ADAU

Dilynwch y cyfarwyddiadau i droi'r dudalen flaenorol yn lyfryn




Plygwch ac agorwch

①



- Plygwch
- Torrwch i'r chwarter
- Agorwch

④




ac eto...

②




- Plygwch
- daliwch y pennau

⑤




ac eto...

③




-Sgwisiwch

⑥



Plygwch y tudalenau

a



TA-DA

⑦

# Dyfodiaith Paul Eastwood

CHAPTER, CAERDYDD  
CHWEFROR – MAWRTH 2019

Cawn ein herio i gwestiynu ein canfyddiadau am ddyfodol a bodolaeth ein hiaith wrth wylio a gwranddo ar ddau o weithiau cignoeth diweddarar Paul Eastwood yng ngaleri Chapter, Caerdydd. Arddangosfa o waith ffilm *laith Bwyston* (2018) a gwaith sain *Tafod Dadweirled* (2019) ydy *Dyfodiaith*. Cawn gipolwg ar fyd ffantasi Eastwood, wrth iddo greu iaith estron sydd wedi ei hysbrydoli gan ieithoedd Celtaidd a'i chyflwyno i gynulleidfa nad yw eto'n bodoli! Er mwyn creu'r arddangosfa hon, cydweithiodd Eastwood â thîm o ieithyddion ac ysgrifenyddwr profiadol i greu sgript sy'n seiliedig ar y Gymraeg, Cymraeg Canol, y Gernyweg a'r Hen Frythoneg i siarad â'r dyfodol. Gan ei bod yn sgript estron i fwyafrif y gynulleidfa, mae'r arddangosfa yn codi nifer o gwestiynau: 'Beth yw gwerth iaith os nad oes llawer yn ei deall hi?', 'A oes angen deall iaith i'w gwerthfawrogi?', 'Ydy hi'n iaith sy'n bodoli os nad oes neb yn ei deall?' Cawn ein hatgoffa o gwestiynau a glywir gan y Cymry yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg. Er yr awyrgylch anghyfarwydd felly, ceir yma themâu cyfarwydd i drigolion sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol eraill megis Catalaneg, Cernyweg, Llydaweg ayyb.

Cawn olwg fanylach ar fyd ffuglen Eastwood yn *laith Bwyston* gyda monolog a pherfformiad dirdynol Melangell Dolma yn creu, ar yr olwg gyntaf, ffilm ag awyrgylch anesmwyth. Argraff o fyd sy'n bell o fod yn fyd iwtopia sydd yma felly, gyda saethiadau anghyfforddus o agos o geg yr actores yn creu naws anifeilaidd ac amrwd. Mae ei phoer yn glynu wrth ei dannedd, ac mae ei gweflau sych, di-liw yn cyfleu gwedd wanlyd, a chyfanrwydd y gwaith yn anghyfforddus i'r llygad. Fodd bynnag, wrth wrando ar leisiau swynol Lisa





Angharad a Gwenno Elan Healy, a deuawd soddgrwth Kristen Miller a Rachel Waters yn cyfeilio i gyfansoddiadau iasol Samuel Barnes, daw'r teimlad o ryw brydferthwch hudolus i'r ffilm yn syth. Defnyddia Eastwood gasgliadau o olygfeydd symbolaidd, gyda'r gerddoriaeth wefreiddiol yn ategu ac adlewyrchu monolog Dolma. Ffilm yn llawn cyfodiadau o brydferthwch ag aflonyddwch yw *laith Bwyston*. Fel gwylwyr, cawn ein hudo gan chwilfrydedd y byd newydd hwn, wrth weld golygfeydd o gannoedd o glustiau ag esgyrn yn gorwedd ar lawr, tafodau'n nadreddu ar draws y sgrin a saethiadau anniddig o wyneb y prif gymeriad yn traethu ei haraith i'r camera.

Wrth gerdded i ystafell gyfagos, ceir pedair set o glustffonau ar feinciau gwyn plaen. Clywir llais bras a chyfoethog Wyn Bowen Harries yn traethu geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd *Tafod Dadweirled*, iaith a chyfanwaith a gyfansoddwyd gan Eastwood a'i gydweithwyr. Gorfoda noethni'r ystafell i ni ganolbwyntio'n llwyr ar sain y clustffonau a'r geiriau newydd sy'n cael eu poeri o geg y llefarydd. Daw rhyw brydferthwch estron o glywed iaith ddieithr yn cael ei hadrodd ag argyhoeddiad ac angerdd, ond hefyd eiddigedd, gan nad oes modd deall yr

hyn sy'n cael ei ddweud. Amlyga'r profiad yma'r chwilfrydedd diddiwedd sydd i'r arddangosfa.

Nid yw'n syndod felly gweld arddangosfa arall gan Eastwood yn trafod materion ieithyddol gwleidyddol mewn modd mor unigryw ac apelgar. Archwilia Eastwood gyd-destun diwylliannol yr iaith Gymraeg a'i pherthynas â ieithoedd lleiafrifol eraill y byd trwy roi pwyslais ar ddwyieithrwydd â'i pherthynas â ieithoedd dominyddol. Wrth ddefnyddio cyfeiriadau symbolaidd a chyfodiadau cyfoethog ym mhob agwedd o'r gwaith, mae'r arddangosfa yma'n ennyn trafodaeth am ddyfodol ieithoedd lleiafrifol mewn arddull raenus a deallus.

**Mae modd i chi ddarllen cyfweiliad estynedig â Paul Eastwood am Dyfodiaith yn Y Stamp, Rhifyn 6 - Gaeaf 2018. Ar gael mewn print ac arlein.**




**Darllen, holi, herio**  
www.pedwargwynt.cymru



MARY LLOYD JONES  
*YSGWRN*  
2015





TOMOS SPARNON  
*ASTUDIAETH O FFIGWR YN EISTEDD 1*  
2018


**TOMOS SPARNON**  
**ASTUDIAETH O FFIGWR**  
**YN EISTEDD 1**  
**AML-GYFRWNG AR BAPUR**  
**2018**

**Awgrym:** Rhwygwch y dudalen hon o'r cylchgrawn i greu poster stampus.

Mae'r artist Tomos Sparnon yn un ar hugain oed ac yn dod o Gastell-nedd. Yn yr haf fe raddiodd mewn Celfyddyd Gain o Goleg Celf Abertawe. Ar hyn o bryd, mae'n Artist Preswyl cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Celf Abertawe. Gweithia gyda myfyrwyr y celfyddydau sy'n astudio rhan o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg gan hyrwyddo'r Gymraeg yn y Coleg. Mae wrth ei fodd yn gwneud y gwaith hwn. Mae ei waith celf wedi cael ei arddangos mewn sawl lle dros y blynyddoedd gan gynnwys Y Galeri Caerffili, Oriol Glynn Vivian, Abertawe, GS Artists Abertawe ac Oriol Kooywood, Caerdydd. Mae wedi cael llwyddiant hefyd mewn gwahanol gystadlaethau gan gynnwys Eisteddfod Yr Urdd, Beep Painting Biennial, Cymdeithas Gelfyddydau Abergwaun, ac un o'i baentiadau oedd gwobr Dewis y Bobl yng nghystadlaeth Llyfr y Flwyddyn 2018. Ei fwriad yw gwneud cwrs ôl-radd rhywbryd yn y dyfodol a pharhau i ddatblygu ei waith celf.

'Mae'r ffigwr dynol wedi fy hudo erioed, ac o ganlyniad, mae wedi parhau'n ganolbwynt yn fy ngwaith. Yn y gorffennol, rwyf wedi canolbwyntio ar y ffigwr gwrywaidd, gan fy mod yn teimlo y gallwn gysylltu â'r ffigwr hwnnw'n fwy, a mynegi fy hunan yn llawnach trwyddo. Fodd bynnag, mae fy sylw wedi troi yn ddiweddar at y ffigwr benywaidd, yn rhannol mewn ymateb i'r modd y mae menywod yn cael eu portreadu a'u trin yn ein cymdeithas, ac er mwyn mynegi syniadau am drafodaeth, atgof a theimlad. Rwyf am ddal profiad a phresenoldeb person, yn hytrach na'i golwg allanol. Rwy'n gweithio gyda sawl cyfrwng ac arwyneb gan gynnwys paent olew, siarcol a chlai. Trwy amrywiaeth o gyfryngau, rwyf am gyfleu'r gwrthdaro rhwng cynrychiolaeth a haniaethiad.'

**LLENWCH Y DUDALEN WEN, WAG ...**



Ar gyfer colofn **Y LABORDY** y tro yma, gofynnwyd i'r nofelydd **Ruth Richards** greu darn o ffuglen Mills-and-Boonaidd o ramantus; a chreu darn o gelf i gyd-fynd ag o. Dyma gyflwyno'r canlyniad i ddarllenwyr *Y Stamp* ...



*Y LABORDY*  
**F'Annwyl  
Ddiweddar Wraig  
Ruth Richards**

**Gŵr gweddw oedd Bobby a symudodd i'r pentref ychydig fisoedd ar ôl colli'i wraig.** Roedd llawer mwy i'w gymeriad na'i weddwod wrth gwrs, gan gynnwys bod yr unig berson yn y pentref gyda thanysgrifiad i bapur newydd y *Stage*. Arferai weithio ym myd adloniant, a dywedodd unwaith ei fod yn arfer adnabod Diana Dors.

'Sut un oedd hi?' gofynnodd Eirlys dros ei phapurau newydd a'i fferins.

'Hogan iawn. Digon clên a diridanno,' meddai yntau, ac Eirlys yn synnu, gan ei bod wedi clywed pethau amdani fyddai'n codi gwallt eich pen chi.

'Maen nhw'i gyd yn marw allan rŵan,' meddai Bobby, ei dristwch yn rhybuddio yn erbyn unrhyw fusnesu pellach ac yn diffodd yr awydd am glecs. Dros amser, bron nad anghofiwyd ei alwedigaeth lachar; roedd ei unigrwydd a'i alar mor anghydnewws â byd y sgrin a'r llwyfan. Roedd wedi lapio'i hun mewn hiraeth, gan roi'r argraff bod y gorffennol yn rhy amrwd i'w rannu dros baned yn y caffi neu sgwrs foreol yn y siop papurau newydd.

Soniai'n dyner am ei 'annwyl ddiweddar wraig' - weithiau fe'i galwai'n 'briod', a doedd neb yn ddigon hy i holi llawer, dim ond ochneidio mewn cydymdeimlad a'i llunio'n unol a'n ffansi. Dawnsraig oedd hi, meddai o; tlws a bregus ei chyfansoddiad. Cafodd gystudd hir, a dyna'i union air - cystudd - nid

salwch hyll fel pawb arall. Hawdd oedd ei dychmygu'n welw a theg ar wely angau, neu fel balerina fach yn llamu'n unionsyth ar agoriad blwch i droelli i gyfeiliant y miwsig main - tan ddaeth hi'n amser i gau'r caead yn derfynol a llawer rhy fuan.

Roedd rhyw ramant yn perthyn i Bobby; peth prin a thlws mewn pentref mor farwaidd â hwn. Simsanai ychydig gyda phob cyfeiriad a wnâi at ei wraig, a chwyddai ein cydymdeimlad ninnau; daethom i'r casgliad nad oedd yn gyflawn hebddi rywsut. Codai'r llen ar berffeithrwydd priodasol byrhoedlog, a da oedd gweld fod y fath beth yn bosib. Er, synnwn i ddim na fu dyfnder ei alar yn fath o gysur i'r mwyafrif ohonom a rygnai ymlaen.

Soniodd o 'rioed am blant, a doedd hynny'n fawr o syndod o gofio'i bod hi mor wantan; buasent wedi amharu ar wynfyd eu hundod, beth bynnag. I bwrpas ein delwedd ohono, roedd hi'n well na fu ganddynt blant. Rwy'n amau â fyddai ein teimladau tuag ato mor dyner pe deuai llond tŷ o deulu ato pob Nadolig. Ac os dyna'r sefyllfa, mae'n amheus i mi a fyddai'r merched wedi ochneidio drosto, ac a fyddai'r un ohonyn nhw wedi trafferthu damcaniaethu y bu'r hen Bobby'n ddyn golygus yn ei ddydd.

'Mae pawb mor ffeind hefo mi,' meddai, a ninnau ddim ffit i gynnig fawr

mwy na chwarteisi a chydymdeimlad. Roedd o'n meddwl y byd o'r pentref. Arferai ddod yma'n blentyn i aros gyda'i Anti Lil ar bwys Allt Refail. Roedd rhai yn dal i gofio Anti Lil - roedd hi'n un o'r cymeriadau rheiny oedd yn fodryb i bawb, ond doedd neb yn cofio Bobby'n dod i aros. 'Roedd o'n bentref clên bryd hynny,' meddai, 'ac mae wedi aros felly, diolch i'r drefn - yn llawn o bobol ffeind.' Byddai llawer yn dweud mai twll ydi'r lle 'ma a ninnau'n ddim anwylach na neb arall, ond ar ôl colli'i wraig a chydag eilun ei serch yn gelain, doedd waeth i Bobby setlo yma ac ar ein ffeindrwydd ni ddim.

Bu'n prudd werthfawrogi ein caredigrwydd am bron i ddeugain mlynedd, heb ffynnu na dirywio ryw lawer ychwaith. Synnais ei fod dros ei ddeg a phedwar ugain pan fu farw. Byddai'n mynd am ei dro arferol - drwy'r winllan wrth gefn y neuadd ac at yr eglwys - hyd at y diwedd un bron. Y tro diwethaf y trawais i arno, dywedodd fod yr eirlysiau allan.

'Tywydd trôns llaes,' medda finnau, gan feddwl yr eiliad nesaf bod hyn yn beth anaddas i'w ddweud, er wyddwn i ddim paham ychwaith.

Os cafodd wraig Bobby gystudd hir, yna'n sydyn a disymwth yr aeth o. Clywais ei fod yn yr ysbyty, a chyn pen dim, roedd mewn hosbis.

'Well i ti fynd i weld yr hen Bobby,' meddai Mair. Roedd hi'n meddwl

y byd ohono.

Roedd Bobby â'i lygaid ynghau a'i geg yn agored. Es ato gyda'r bwriad o siarad yn gwbl naturiol, fel petai dim amheuaeth y byddai'n fy nghlywed a'm deall i'r dim. Wrth estyn am gadair, gwelais ei llun ar y cabinet wrth ochr ei wely. Cydiais ynddo a syllu.

Welais i neb cyn dlysed erioed. Gwallt tonnog du, dwy lygad dywyll hylifol, a phob ystrydeb arall na ddeuai'n agos at wneud cyfiawnder â hi. Roedd y llun yn hen; edrychai fel actores mewn ffilm ddu a gwyn, er na allwn gofio i'r un o'r rheiny wneud y fath argraff arna i. Tybiais fod ei thlysi mor ddelfrydol nes gwneud iddi ymddangos bron iawn yn gyfarwydd. Sylweddolais nad oedd gen i syniad beth oedd ei henw, ac anghofiais holi sut oedd o na sôn am y tywydd;

'Beth oedd ei henw?'

A'i lygaid ynghau, ceisiodd Bobby wlychu'i geg i siarad. Rhoddais lymaid o ddŵr iddo.

'Dolores.'

Roedd yn ei siwtio; doedd 'na ddim golwg Doris na Madge arni, ac o'i gysylltu â'r llun, ni sniai'n enw diarth na hurt. Dolores: treiglai drwy'r meddwl fel anaf coeth – trywaniad gan saeth Ciwpid.

'Doedd hi'n ddel,' meddwn yn dwp.

'Hardd,' meddai yntau, a gwnes innau ymdrech wedyn i holi amdano a sôn am y tywydd. Ar ôl ychydig, syrthiodd ei geg yn agored unwaith eto, a chymerais innau hynny fel arwydd ei bod yn bryd i'w adael. Rhoddais y llun yn ôl ar y cabinet a chyffyrddais â'i law yn ysgafn; un o'n hystumiau stoc ni'r gweinidogion,

er na'i dysgir yn yr un coleg diwinyddol hyd y gwn i. Efallai ein bod yn gobeithio sianelu Duw drwy flaenau'n bysedd heb syniad os ydi peth fel 'na'n gweithio ai peidio.

Doedd ganddo ddim teulu ar ôl. Aeth y trywydd yn oer gydag Anti Lil, a bu farw honno ym 1952. Bu ymdrech i ganfod ble claddwyd ei wraig hefyd, ond ni chafwyd unrhyw gownt o Mrs Dolores Price.

'Efallai nad oeddau nhw'n briod,' cynigiodd Mair, gan ychwanegu heb unrhyw esboniad rhesymol y byddai hynny'n gwbl addas a dealladwy yn eu hachos hwy.

'Well i ni beidio sôn am hynny,' meddais.

Y fi gymerodd yr angladd, a chyfeiriais ati'n dwt fel 'ei gymar hoff' yn fy nheyrnged. Ni adawodd Bobby yr un ewyllys nac unrhyw fath o gyfarwyddyd, ond daethom drwyddi rywsut, ac yn ddigon urddasol. 'Dim ond lesu' fel emyn – tybiais y byddai honno'n addas iawn; trefnodd Mair de cynhebrwng yn y caffi lle darllenai ei bapur; ac fel un twtsh bach rhamantus olaf, gofynnais i'r ymgymerwr osod llun Dolores yn yr arch.

Daeth rhyw ddwsin i'r caffi. Roedden ni gyd yn hen, neu'n heneiddio ar garlam.

'Wyddwn i ddim mai Dolores oedd ei henw hi,' meddai Ned.

'Fath â Dolores del Río,' meddai Eirlys yn synfyfyriol, cyn gorfod esbonio i bawb pwy oedd honno.

Gwelais fod dyn diarth wedi'n dilyn i'r caffi – sylwais arno yn y fynwent, ac es ato i ysgwyd ei law. Edrychai'n or-

drwsiadus; ei dei, hances boced a leinin ei got i gyd yn cydweddu. Gwisgai het a wnâi iddo edrych fel crwc. Consuriwr oedd o, Sais o Landudno. Gwelodd yr hysbysiad yn y Daily Post.

'Nice service, Padre. Shame I didn't understand a word of it...'

Rhoddais bwt o grynodedd iddo, gan ddweud fod Bobby'n gymydog da a hynaws. Nodiodd y consuriwr. Dywedais ein bod wedi rhoi llun o'i annwyl gymar, Dolores, yn yr arch ...

'YOU WHAT?' sbladdrodd y Sais, gan chwerthin yn uchel. Tawodd pawb a gwgu arno. Cefais innau sgegfa, ac wrth gael fy ngwynt ataf, cefais ysfa i roi clewtan iddo. Aeth yntau ymlaen i esbonio, yn dawelach a mwy parchus:

'I'm sorry, Padre, I'd better explain...'

Ni fu Dolores. Ddim fel person go-iawn nac ar wahân i Bobby, beth bynnag. Serch hynny, serennai ar y llwyfannau dros-dro ar longau'r llynges amser rhyfel, ac yna mewn clybiau nos a rifiwiau drwy'r pumdegau a'r chwedegau. Aeth pethau'n feinach wedyn.

'Best legs in the business, though ...'

Ni fynnai Bobby iddi heneiddio na gostwng ei safonau; dangos mwy o goes a chracio jôcs budron.

'He wouldn't do pants, you see, or have anything to do with blue material, so he was stuffed wasn't he, poor old Bobby.'

ADOLYGIAD – LLWYFAN

## Woof

## Elgan Rhys

THEATR SHERMAN, CAERDYDD  
CHWEFROR 2019

Trawsnewidiwyd stiwdio'r Sherman i gylch dieflig, ac unwaith y cewch eich dal yn y cylch, glynu yno fydd eich hanes. Mae'n anodd credu y byddai'r gynulleidfa yn gallu dianc o'r cylch dieflig hwn wrth wlyio 'Woof'. Gwelwyd estheteg syml – llwyfan octagon, a chyfosodiad gorfoleddus rhwng gwaith Elin Steele gyda'r set a Katy Morrison gyda'r dyluniad goleuo. Roedd ergydion cyflym y golau yn ein bwrw gan newid trywydd a naws y darn, boed yn garu neu'n gweryla — roedd y dyluniad golau'n rhan o fywydau'r cymeriadau. Ni fyddai'r darn yn gyflawn heb waith

aeddfed Sam Jones — ar adegau clywn guriadau cyflym cerddoriaeth mewn clwb nos ac yna melodïau pêr, oll yn creu naws tu hwnt o ddirdynnol.

Gwelwyd deuawd hudolus rhwng Berwyn Pearce ac Aled Pedrick a llywiwyd y berthynas drwy'r darn. Credaf fy mod yn awyddus i'r berthynas weithio cyn i'r actorion gamu i'r llwyfan. Glynodd eu perthynas ataf drwy'r perfformiad. Yr oedd y ddeialog rhythmig, stacato yn gymysgedd gytbwys o farddoniaeth a rhyddiaith, o'r cwpwl yn caru drwy'r Gymraeg, i'r ddau yn cymryd cyffuriau mewn clybiau nos. Braf i mi oedd clywed Cymraeg loyw naturiol ar y llwyfan heb geisio gorddefnyddio Wenglish. Rhaid canmol y defnydd gwyth o isdeitlau; dyma berfformiad sy'n mynd y tu hwnt i'r iaith lafar drwy'r gwead gyfoethog a welir o chwant, cariad a thor-calon rhwng dau berson.

Gwylw'n eu perthynas yn datgymalu, am i'r ddau ddyheu am

bethau gwahanol — Daf â'i obeithion cudd am briodas a theulu, a Jesse â'i ddymuniad i fyw i'r eiliad ar Grinder gyda dynion gwahanol. Mae calon y gynulleidfa yn suddo gyda Daf wrth i Jesse ddatgan ei gariad tuag at ddyn arall. Dengys hyn lwyddiant yr actorion i'n tywys i berfeddion ein hemosiynau. Llwydda 'Woof' i'n meddwi ar gariad y ddau yma.

Rhydd y tawelwch llethol yn yr olygfa glo pan gyfarfu'r ddau wedi amser ar wahân ymdeimlad sensitif ac eithriadol o ddirdynnol.

Mawr obeithiaf y caiff gweddill Cymru y cyfle i brofi'r gampwaith hon, sy'n cyffwrdd i'r byw.

**Mae modd i chi ddarllen cyfweiliad estynedig ag Elgan Rhys am Woof ar wefan Y Stamp (06.02.19)**

# Engedi 2.0 / Rehoboth Liam Kurmos ac Ellis Jones

Mae addoldai, a Chapeli yn benodol, wedi bod yn rhan fawr o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol. A ninnau bellach mewn oes ôl-grefyddol, neu ôl-Gristnogol, i raddau helaeth pa effaith mae hynny'n ei gael ar yr adeiladau a thrwy hynny'r cymunedau? Byddai O. M. Edwards, awdur *Cartrefi Cymru*, yn gwarafun stad bresennol nifer o gapeli ac addoldai yng Nghymru. Ond beth am **Cartrefi Cymru 2.0**? Dyma gyferbynnu dau gapel, a'r naill yn wahanol iawn i'r llall.

## LIAM KURMOS ENGEDI 2.0

Wrth gerdded drwy Gapel Engedi all rhywun ddim llai na theimlo fod urddas yn perthyn i'r lle o hyd er gwaetha'r tyllau yn y to a'r baw colomen. Gwelodd Engedi ddyddiau gwell ond mae cynlluniau mawr ar droed— mae Liam, y perchennog newydd, yn dywysydd cynnes a ffraeth ac mae ei frwdfrydedd a'i weledigaeth yn amlwg.

Pan nes i brynu fama oddna twll mawr yn y to, lle o'dd yr hen ysgol Sul a'r festri o'dd y to wedi disgyn i fewn i gyd ac o'dd na broblem efo pobol yn torri i fewn a fandaleiddio.

Nes i brynu y Capel bedair blynedd yn ôl. Oni yn ymwybodol o hanes y Capel a dyna pam oni'n rili gweld fod o'n bechod fod yna ddim lot o ddi-ddordeb yno fo. O'dd fama yn cynnal y cymuned lleol ar un adag. Dyddia 'ma mae lot llai o pobol efo diddordeb yn yr ochr grefyddol ond mae lot o'r *values* cymunedol yn dal i fod yn bwysig. O'dd 'na elfen o fod y capeli fel *movement political* yn y cymunedau Cymraeg, un o'r unig lefydd lle odd pobol yn cal addysg Gymraeg a'r un uchelgais sydd gen i ac o'dd gan pobol nath ddechrau fama rili— helpu cymuned drwy addysg a creu cymuned fwy iachus hefo yr un *values* ac odd gynyn nhw yr adag yna jesd bod nhw'n fwy *multicultural* rwan ac yn fwy agorad.

Da ni'n galw yr holl prosiect yn Engedi 2.0 achos hanes y lle. Fama wnaeth pobol benderfynu mynd i Patagonia, mynd i wlad newydd tra oedd bywyd yn fama *under threat*. A da ni'n cymryd o fel metaphor o lle yda ni rwan gyda'r sefyllfa amgylchedd. Oedd mynd i Patagonia yn *idealistic* — cymryd dy fywyd a mynd draw i dde America, ma' isio dipyn o ffydd i neud hynna. Mynd i


byd newydd yda ni hefyd sef y byd cynaliadwy — trwy celf ac addysg a *wellbeing* a petha cymunedol — a trio ehangu'r syniad bo ni angen cal pawb i gefnogi hynny. Dwi'n meddwl fod yr ardal mewn sefyllfa cry iawn i fod yn arweiniol a drwy allu dweud fod y darn bach bach yma o'r byd yn cynaliadwy fydd o'n hawsach i gneud o'n model i llefydd erill.

Mae gen i lot o syniadau o sut i wneud hynna os gawn ni y momentwm cymdeithasol a'r *crowdfunding*. Ond yr ochor mwy pwysig i ganolbwyntio arno fo ydi creu y diwylliant gwahanol trwy y celf a'r ochr diwylliannol, y *behaviour change*, lle mae pobol yn meddwl bod o'n bwysig i ni neud hwn ac i newid ffordd o fyw.

Tu allan lle o'dd yr ysgol Sul 'da ni am glirio fana a'i ddefnyddio fo fel maes cymunedol, cael o'n lle i arddio a chael celf a perfformiadau. Sa'n ddiddorol cymysgu *permaculture low tech* a technoleg *urban garden*, *hydroponics* a *vertical gardening*, petha fel'na. A ca'l o fel lle mae pobol yn gallu dŵad a dysgu sgiliau a gwneud *placements*, dwi'n teimlo fod isio mwy o betha fel'na. Mae gan lwyth o bobol yn y gymuned arbenigedd gwahanol a dwi isio i'r gofod yma fod ar gael i bobol ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae na lot o herion yn mynd i wynebu yr ardal yma efo Brexit a'r economi global a'r peth sydd yn mynd i newid petha ydi sgiliau pobol ac addysg, dyna ydi'r unig ffordd i godi pobol.

Da ni yn gneud petha yn barod— ma' 'na criw o artistiaid o'r enw Artists Anonymous yn mynd i ddod yma i weithio efo ni, ma' nhw wedi gweithio efo Banksy a Saatchy yn y gorffennol, ac ar hyn o bryd da ni wedi bod yn ca'l artistiaid lleol i weithio yn y gofod sydd ganddo ni yn y selar.

Dyna'r weledigaeth swni'n ddeud a ma' 'na llwyth o wahanol opsiynau sut i gal hynna fel nes i sôn. Gena'i lot i'w wneud a dwi angan llwyth o help felly dwi'n chwilio am pobol i helpu fi!



**MR. ELLIS JONES  
REHOBOTH**

Mae hi'n bawn Sul ac mae'r tân yn clecian wrth i Mr Ellis Jones fynd drwy'i bethau. Cafodd ei fagu o fewn golwg i Gapel Rehoboth, Llaniestyn, a bu'n drysorydd yno tan yn ddiweddar. Bu'n ffermio ar hyd ei oes ac efallai mai hynny sy'n gyfrifol am ei drafodaeth bragmatig, ymarferol, o'r capel bach yng ngwaelod y dyffryn.

Ma'r capal yn gant a hannar oed 'leni ac o'dd 'na dri gwasanaeth bob dydd Sul am gan mlynadd beth bynnag. Mi oedd yna lond sêd fawr o flaenoriaid adag hynny a Ysgol Sul a 56 o glasus yno, rhei i blant bach, rhei bach mwy, rhei *teenagers* a rhei pobol mewn oed. Oedd tad, dwi'n cofio nhw'n iawn.

Dwi di bod yn mynd yna ar hyd fy oes, erstalwm fydda'm isio i neb gymryd rhan ond blaenoriaid. Odd'na bump masiwr yn sêd fawr ac mi o'dd na ddau nad aethan nhw i sêd fawr, ond ista'n seti'i hunain. Doeddau ni ddim byd ond gwrandawrs. Ond wedyn yn 1982 mi oedd hi wedi mynd nad oedd ond un yno yn flaenor. A rhyw wasanaeth bach fydda hi, ac yn flwyddyn honno mi farwodd yr unig un. Mi aethon i Capal nos Sul wedyn a neb am neud dim byd a dyma fi'n deud cyn dod o 'no 'Snag oes yna rywun am neud rwbath ohoni waeth ni gau na pheidio.' A mi udish i, 'Mi wna i drio Sul nesa os leciwch chi'. Doddwn i 'rïoed wedi gneud o'r blaen. Mi es adra a mi stydish bishyn i ddarllan lle bod o'n hollol ddiarth a mi gesh i afal ar lyfr gweddi.

Mi es i Sul wedyn a chwilio am ryw bennod oni'n nabad yn o lew. Wedyn mi ddoth Eric o'dd yn byw yn Cefngaer Bach i helpu a erbyn Sul wedyn mi ddoth Beti Pantycelyn, wnae honno'n helpu ni medda hi. A mi ddoth Gwyneth yn aelod yna o Capal Nant a wnae honno weithia wedyn. A felly o'dd hi am sbel.

Ond mi farwodd Eric yn ifanc ar y naw, dod adra o'i waith a mi gafo nhw o 'di marw ar sofffa — a mi farwodd Beti Pantycelyn wedyn, wedi bod yn cwyno ers tro. A wedyn doedd ond y fi.

Ond mi ddoth Gwilym Tŷ Newydd i'r adwy, mi ddoth i Capal yma o Gapal Nant. Yn y pen dwythfa y fo a fi a Gwyneth o'dd, ond mae hi 'di mynd rŵan nad oes yna gwrrd gweddi ond pregath.

Doddna'm byd yn ecseiting yn y peth, ond mae o 'di dal i fynd. Ond dwi'n cofio fel y cofi di ambell i beth, pregethwr wedi dod yno rhyw fora dydd Sul a neb yno ond y fo a Robat Robaij Tŷ Capal a

Robat Robaij yn deud me' nhw 'Duw, mi ai i lôn i weld os oes rhywun yn golwg yn dŵad' ond neb yn dŵad— wedyn o'i 'di dechra mynd yn wan ers blynyddoedd sti.

Y Rhyfal roth glec i gapeli — mi gollodd lot ei ffydd mewn Cristionogaeth pan dorrodd y Rhyfal allan. A John Williams, Brynsiencyn yn mynd rownd capeli yn crefu ar bobol i fynd i'r armi a do'dd hynny'n yn iawn. Mi odd na sôn am hwnnw bob amsar na rhyw ddipyn o ddyn y frenhiniaeth oedd o te, dim dyn Crist. A mi ddechreuodd petha erill newid byd yn ddiawledig.

Dwi'n cofio yn diwadd y tridega, dechra pedwardega, llond y lôn yn dod allan o Capal a llond y lôn o sgwrsio cyn cychwyn am adra. A rheiny'n mynd, yn rhannu'r naill ffordd neu'r llall. Oddo'n bwysig iawn iawn, Duw annw'l capal odd bob dim erstalwm — seiat ar noson waith te a cwarfod gweddi a holi, odd hynny bob wsos. Fydda ni'n mynd yna at rhen fachgan Tanrallt, Gruffudd Pritchard, i ddysgu Sol Ffa. Dim ond lle i addoli ydi o heddiw, ostalwm oddo'n fwy. Fydda 'na gymanfa a llond y lle a consarts yna. Fuo na'm stedd fod 'rïoed ond *sports* bob blwyddyn a te parti weithia yn garej Tŷ Capal. Dyna'i chdi helth and seffti!



Dau beth ydi'r anawsterau mwya — 'chydig o aelodau a costa cadw'r lle. Mae o'n rhy fawr, mae 'na waith c'nesu arno fo a gwaith cynnal, ond mae hi wedi bod yn iawn efo pres yno ar hyd y beit te. Mi gafon ddipyn o bres pan gaeodd Capal Bryncroes, doddo'm yn lot ond mi oedd yn help.

Dos na mond rhyw chwech, saith, yn mynd yna erbyn hyn, a rheiny ddim bob tro. Edrach yn ddu iawn dwi'n gweld hi, does na neb o'r newydd yn dod. Dwi'n gweld mai matar o amsar ydi hi, wedi i mi fynd fydd na un yn llai wedyn a fi di'r hyna' sy 'na rŵan, ond dwi'n sbio o'r ffordd dywyll ella.

Ar wahân fod chydig yn dŵad ma' nhw'n brin yn yr ardal tydyn, y diboblogi a Saeson. Nachdi'n pentra... chwech, saith, wyth, naw, deg... ma 'na ddeg yn y pentra a'r tai cownsil yn dai Saeson. Sa'm plant fathag o'dd... dau yn Tŷ Capal a tri yn Ty'n Berllan, dyna'i ti hynny sydd yn yr ardal i gyd.

Na, fy syniad i ydi bo nhw'n mynd fesul un de— os ydi Capal Rhydyclafdy yn cau a hwnnw'n bentra mawr pa jans sgin hwn? A dyna Capal Nant wedyn mi o'dd hwnnw wedi cal ei ddiboblogi yn arw de a 'di werthu rŵan ond dw'n i'm byd i bwy. A Capal Sarn do's na fawr neb yn mynd i hwnnw. A'n syniad i ydi s'na ddogwyddith rwbath mawr yma na gwerthu fydd hi rhyw ddwrnod.

Ond y peth sgin i isio'i ddeud fwya ydi bod y ffyddloniaid yn ffyddlon iawn.




# Dalennau Boreol Morwen Brosschot

Yn dilyn darn ar wefan *Y Stamp* gan ein cyd-olygydd newydd, Esyllt, yn trafod ei phrosiect celf dyddiol ar gyfrif instagram @darlun\_y\_dydd, cysylltodd Morwen Brosschot i sôn wrthym ni am ei hymarfer dyddiol hi o greu 'dalennau boreol'.

Cychwynais ar y dalennau boreol rai misoedd yn ôl bellach, ac er i mi gychwyn efo llyfr nodiadau maint A4 llinellog i ddechrau, erbyn hyn dwi'n gwneud fy llyfrau fy hun allan o ba bynnag bapur sydd wrth law. Nid dyddiadur ydi o, na lle i gael rant neu ddadlwytho problemau! Yn hytrach lle i roi rhydd hant i beth bynnag sy'n pasio drwy'r meddwl. Rhyw fyfyrdd symudol o sgwennu'r pethau ddaw i'r meddwl wrth iddyn nhw godi – gadael lle i lif yr ymwybod a hynny fwy neu lai yn syth ar ôl deffro cyn gwisgo na bwyta na dim (er fod panad yn help weithiau). Boed hynny'n sôn am ddiwyddiadau ddoe, cynlluniau heddiw, disgrifio'r awyr yn graddol oleuo, clywed ceiliog drws nesa'n canu, fy nhrwyn yn cosi, neu ofyn cwestiynau mawr bywyd! Hyd yn oed sgwennu, os mai felly dwi'n teimlo – 'Sgin i ddim syniad be'i sgwennu heddiw!'. Ond fel arfer pan sgwenna i hynny mi basith yr amser mor sydyn nes y byddaf wedi llenwi'r tair ochor tudalen A4 cyn i chi allu dweud 'bora da!' A thair ochr hefyd – dim mwy a dim llai. Er, ar y dechrau roeddwn yn mynd 'iddi' gymaint nes fy mod yn cyrraedd pedair ochor. Mae'n arbrwf lle dwi'n dysgu rhywbeth bob dydd a rwan os cyrhaeddaf waelod y trydydd ochr ar hanner brawddeg mae'n cael ei adael felly. Mae'n ymarfer dyddiol o greu awyrgylch myfyriol sy'n wirioneddol ddylanwadu ar weddill y dydd. Mae'n ymarfer meddyliol, myfyriol a chorfforol, efo'r weithred o sgwennu'n fyfyrdd yn ei hun.

Ysgrifennodd Morwen y darnau canlynol, 'Llinellau' a 'Symud Ymlaen' fel ymgais i ddadansoddi a chrisialu'r ymarfer a'r profiad. Chawn ni ddim rhannu'r dalennau eu hunain, gan nad ydyn nhw 'ar gyfer neb arall, a dydw i fy hun ddim yn mynd yn ôl atynt ar ôl eu sgwennu.' Byddai'n dda clywed gan eraill ymysg darllenwyr *Y Stamp* sydd ag arferion neu ymarferion tebyg.



## Llinellau

Tudalen wag dilynell  
a hoffais enoed.  
Bob llyfr yn llawn  
dalennau gweigion, plaeu  
yn gofyn am greadigrwydd,  
yn gwahodd nyrsgriant;  
a phapur o ansawdd,  
lliw hufen, lliw tywod,  
neu bapur arbenig a maethpwyd  
â llaw.

Ond cefais hyd, yn adiweddau,  
i llyfr cas caled  
yn llawn tudalennau llinelllog  
a'r papur yn derau fel sidan.  
Teimlais adwaith yn eibyn  
ei ddi-sgwblaeth, a  
gwrthryfel  
yn eibyn ei gulai.  
Teimlais gysgngder  
mth ffrwyddu'r dalennau a'r llinellau diadwedd.  
Roedd y beirni fy llaw  
yn oedi  
mth edrych  
ar y llinellau'n gosod llwybr o'm blaen,  
a threfn, a thertynau a thrynydd.  
Roeddwn ofn mentio mwy y rhelliau all,  
diysgog.

Ond eto... o dipyn i beta,  
yn oriau llynaet y bore bach  
daeth gair o ryse  
ac un arall...

y gairiau fu'n aros am amwiniad,  
am sgaffardiau i'w sadio,  
am sgerbwd i gynnal cnaud  
eu syniadau.

Daethant fennel difennu, a  
dechrenaf ffrwythau'r teimlad  
o symud y beiro ar hyd y llinellau  
a throis y dudalen  
yn rhythm asson chmth dde  
ac am i lawr,  
a mwythau'r dawns y llythrenau  
yn ymddangos  
fennel un  
yn ngrth traed brain o fraen fy llygaid;  
awafu  
i weld  
a threimlo  
a chlywed  
pob gair  
yn ffurfio yn ffrwd o niwl y meddwl  
gan wawrio'n wirionedd ar y ddalen o'm blaen,  
a gwneud mwy o synuwr  
nag oeddwn nhw'n un gyborfa  
yn fy mhen eiliaclau ynghynt.

Dynia nhw yn ddd yn llif  
fesul un  
yn llythrenau  
yn aw  
yn frawddegau  
yn eilifeiriant mwy llinellau  
ac mae'r dudalen yn llawn.

## Symuad Ymlaen

Mae'r hysbysuau hysbysuau yn llawn  
a pharhysuau  
o'r hysbysuau  
yn eu cyfraniadau  
a symuad ymlaen.

i ddiwydeth newydd, agored  
ac i ddiwydeth a gwaith  
allan o ddarparu o gwybodaeth yn glawn,  
dalenau o amgylchedd awyrdod  
o ddarparu teulu, bregys  
a ddiwydeth  
yn ffas i'w ffitio,  
ac edau llaw yn llawn arian  
i'w argyrru efn;  
llwybiant, byr hysbysuau,  
dalenau darllyd, ffitio,  
teulu fel sictan,  
mwy hysbysuau eu rhwygo,  
yn llawn cyrchau  
a phlygridiau hysbysuau  
ac ymlynglon carpiog  
yn hysbysuau eu cyfraniadau dan fy nlynglon.  
y Papur meddal yn ymlynglon  
dan ddiwydeth y beirio,  
yn ymlynglon dan bwyntau fy llaw  
i'w hysbysuau i'w ffitio  
o'r hysbysuau  
i'w hysbysuau  
yn ddiwydeth a hysbysuau meddylliaid.

He i fedylliaid ffordd a ddiwydeth,  
ar papur ei hysbysuau hysbysuau  
dan bwyntau beirio  
a ddiwydethau'r hysbysuau;  
yn ffordd i'w hysbysuau y symuad  
ar hysbysuau a symuad ac yn eiddo  
i'w hysbysuau yn atgof hysbysuau y papur,  
yn hysbysuau o beirio hysbysuau,  
parhysuau ymlaen i'w hysbysuau arall.

He i fedylliaid ffordd a ddiwydeth,  
ar hysbysuau hysbysuau yn ddiwydeth  
i'w hysbysuau y ddiwydeth,  
yn hysbysuau hysbysuau.  
Mae ffordd pob hysbysuau  
yn hysbysuau  
ar hysbysuau i'w hysbysuau,  
weirio hysbysuau yn y hysbysuau  
rhwyng y hysbysuau,  
weirio hysbysuau ffordd gair,  
ffordd hysbysuau.

Bwyntau fy hysbysuau y ddiwydeth hysbysuau,  
hysbysuau yn ddiwydeth,  
mwy hysbysuau  
a hysbysuau ar hysbysuau.

He i fedylliaid ffordd a ddiwydeth,  
Mae i'w hysbysuau a hysbysuau beirio yn fy llaw  
yn hysbysuau ddiwydeth y papur  
ar hysbysuau yn ddiwydeth allan o'r hysbysuau;  
y hysbysuau hysbysuau  
ffordd hysbysuau;  
canrhysbysuau ac y hysbysuau goffwr  
o hysbysuau,  
o'r hysbysuau  
dwy'r hysbysuau,  
i'w hysbysuau,  
i'w hysbysuau  
a hysbysuau hysbysuau;  
canrhysbysuau ac y hysbysuau  
yn hysbysuau i'w hysbysuau hysbysuau  
at hysbysuau hysbysuau, neu  
gwybysuau hysbysuau.

He i fedylliaid ffordd a ddiwydeth,  
ar hysbysuau ac hysbysuau  
yn hysbysuau ac y papur hysbysuau  
yn ddiwydeth o hysbysuau  
yn hysbysuau hysbysuau  
i'w hysbysuau i'w hysbysuau arall.



# Cerdded Sian Northey

**Gas gen i wartheg.** Wel, ddim eu casáu yn union. Ond, ti'n gwbod ... falla mai ofn ydio ... falla mai ... Filwaith gwell gen i geffylau neu gŵn. Mae 'na gŵn efo ni wrth gwrs. Ac un ceffyl. Ond y gwartheg ydi'r sêr. Nhw ydi'r rheswm.

Mi allwn i fod wedi cerdded efo'r moch neu efo'r defaid. Ond efo'r gwartheg es i. Transhumance oeddau nhw'n alw fo medda Dwalad. Hafod a Hendref. Mae ganddo fo ryw fyd efo'r geiria yna. Ond does 'na ddim haf iawn bellach felly allwn ni ddim cael hafod. A does yna nunlle parhaol felly allwn ni ddim cael hen dref. Mae pob tref yn dref newydd, ac yn dref dros dro. Mae'r hen drefi, hendref pawb, wedi mynd. Weithia 'da ni'n gweld eu holion nhw, er ein bod ni'n trio'u hosgoi nhw. Ac weithia 'da ni'n cael diwrnod braf o haf. Ond fe all hi fod yn eira'r diwrnod wedyn.

Dw i ddim yn siŵr pwy sy'n penderfynu. Falla mai'r gwartheg eu hunain sy'n penderfynu erbyn hyn, yn penderfynu lle i fynd. Mae'n siŵr mai ni oedd yn gwneud yn y dechrau. Mae Dwalad yn meddwl mai fo sy'n penderfynu. Neu o leia mi fyddai o'n honni hynny.

Ond tydi o ddim yn marchogaeth ar y blaen fel yr oedd o yn y dechrau. Y

fuwch ddu sydd ar y blaen. Ac mae o, fel y tarw, rywle tua'r canol. Y lle saff. Y lle sy'n saff pan mae'n rhaid cael gafael ar un i'w lladd. Ac er nad ydw i'n hoff o'r gwartheg dw i'n casáu pan 'da ni'n lladd un. Tydi hi ddim yn deall. Ddim tan y munud olaf. Ond mae'n siŵr fod hynny'n beth da. Mi oedd Mam yn gwbod.

Gwbod bod hi'n mynd i farw dw i'n feddwl. Ar ôl i Mam farw y gwnes i fynd efo'r gwartheg. Maen nhw'n deud bod yna bobl yn y gogledd, ymhell yn y gogledd, yn cerdded efo'r ceirw. Ond Dwalad a'r gwartheg ddaeth heibio a finna fy hun heb Mam a ddim yn siŵr be i neud.

'Tyd,' medda fo, 'mi fedran ni neud efo un arall.'

Petrusais.

'Mi gei di gig,' medda fo.

Ac mi rois i 'chydig o bethau mewn bag a mynd efo nhw. Wn i ddim pryd oedd hynny. Mae hi'n anodd mesur amser. Alla i ddim deud tri haf neu chwech gaeaf. Mi allwn i fod wedi cyfri'r dyddiau ond wnes i ddim. I be? Mi wn i fod y fuwch las a oedd yn llo pan wnes i ymuno efo nhw wedi cael deg llo ei hun erbyn hyn. Mi wn i fod gwallt Dwalad wedi britho, bod ei geffyl wedi arafu. Dw i'n ama fy mod i'n dechrau moeli. Mi wn i

fod yna lai ohonon ni – llai ohonon ni a mwy o'r gwartheg. Mae'r gwartheg yn dal i gael lloi.

Dw i'n gwbod nad ydw i wedi gweld y moch ers amser maith, ac ond wedi gweld y defaid o bell. Mi oeddau nhw wedi'u gwasgaru ar hyd y llechwedd y diwrnod hwnnw felly efallai nad oedd yna neb efo nhw. Ond mi ydw i'n dal i gerdded efo'r gwartheg. Be arall wna i? Cerdded neu beidio cerdded, dyna'r unig ddewis.

Dan ni newydd aros am ychydig. Mae'r gwartheg yn pori ar lan y nant ac mi ydw i'n eistedd yn yr haul – wrth fy modd fy modd wedi darganfod rhyw fymryn o fwyar yn tyfu mewn man cysgodol. A dyna pryd dwi'n penderfynu.


Does yna neb yn trio fy mherswadio fel arall. Dim ond fy ngadael yn fama pan mae'r fuwch ddu yn dechrau cerdded eto. Dw i'n eu gwyllo'n ymlwybro i lawr y cwm – Dwalad a'i geffyl cloff, y tri sy'n cerdded, a'r gwartheg. Y gwartheg hynny dw i'n eu casáu. Dw i'n eu casáu nhw oherwydd mod i'n cenfigennu atyn nhw. Dw i'n genfigennus oherwydd nad ydyn nhw'n gwbod pryd mae'r llafn yn dod.



# CYHOEDDIADAU'R STAMP / CYHOEDDWYR LLYFRAU ANNIBYNNOL GALWAD AGORED

Rhy ddiog i sgwennu nofel, ond dal eisiau gweld eich gwaith mewn print? Mae'r Stamp eich heisiau chi! Rydan ni'n chwilio am waith addas i gael ei gyhoeddi mewn PAMFFLEDI, ar gyfer cyfres newydd trwy Gyhoeddiadau'r Stamp / Rydan ni'n chwilio am ddarnau byrion o waith, addas i'w cyhoeddi mewn pamffledi o ryw 8 i 20 tudalen o hyd / Does yna ddim cyfyngiad o ran ffurf. Byddwn yn croesawu dilyniannau o gerddi, straeon byrion, monologau neu sgrïptiau, sribedi comig, zines, cyfresi o frasluniau neu gyweithiau hybrid o wahanol gyfryngau fel ei gilydd / Croesewir cyweithiau a gwaith unigol / Rydym yn chwilio am gysyniadau cryfion, fydd yn gweddu i gael eu hargraffu mewn pamffledi byr / Diddordeb? Meddwl mai chi yw'r un? Gyrrwch grynodedd o 200 gair o'r syniad, ynghyd â sampl o waith (tua 50 llinell o farddoniaeth, 500 gair o ryddiaith, neu sampl tebyg o unrhyw gyfrwng arall) at [cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com](mailto:cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com)

## HWN YDY'R LLAIS, TYBAD? CARYL BRYN / 2019 / LLYFR £6.00 / ALBYM £8.00




Yng ngwaith Caryl Bryn fe fyddwch yn chwilio'n barhaus yng nghwmni'r awdur – yn swigod y noson gynt ac yn lludw'r boreau wedyn; trwy ffenestri tai ym Mangor Ucha; ar blatfformau trên yn Lerpwl ac ar draethau Gorllewin Cymru. Dyma gyfrol sydd yn ymdrin yn grefftus a theimladwy â galar, serch ac ieuencid; ac yn gwneud i ninnau holi – 'tybad?'.

MANYLION LANSIO'R GYFROL AR DUDALEN 19



YSTAMP.CYMRU/LLYFRAU



# Banksy, yr Hen Goleg a Turner Prize Cymru Mary Lloyd Jones

**Fy atgof cynharaf o Bort Talbot yw gweld fflamau coch a mwg du yn ddrama fawr**, yn codi o simnëau'r gwaith dur, i'w gweld o'r trêen i gyfeiriad Caerdydd yn ystod y pumdegau. Newyddion drwg a ddaw o Bort Talbot yn awr – maent wedi colli'r diwydiant dur a cheir sôn bellach am gannoedd yn colli swyddi yn y ffatrioedd gwneud ceir.

Felly mae gweld delwedd ddiweddaraf Banksy a grëwyd cyn y Nadolig yn derbyn cymaint o sylw gan y cyfryngau yn gymorth er mwyn creu delwedd tipyn mwy cadarnhaol o Bort Talbot. Mae gwaith Banksy wedi ei osod ar draws cornel garej digon salw; adeilad wedi ei greu o flocs concrit cyffredin a diflas. Mae'r celf yn annisgwyl ac yn gwbl ryfeddol. Gwelir delwedd o grwtyn yn dawnsio neu godi ei freichiau tra bod eira neu lygredd yn cwmpo amdano, a rownd y gornel ceir simnëau o fwg du a fflamiau cochfelyn yn dangos atgofion o'r hen Bort Talbot.

Yn y lle cyntaf, mae'r ymateb syfrdanol i waith Banksy yn cadarnhau i mi bwysigrwydd celf sy'n dangos creadigrwydd a dychymyg, a phosibiliadau syniadau amlochrog pan gânt eu gweld efo'i gilydd. Gall cymhlethdod y gwaith celf gorau gyfoethogi bywydau pawb a chodi calon mewn adeg o ddiflasedd.

Artist rhyngwladol yw Banksy. Nid yw'n ofni bod yn boliticaidd. Yr hyn a welwn yma yw'r llygredd sy'n gysylltiedig â Phort Talbot a'r chwyldro diwydiannol a'i effaith ar blant; hoelie'r ein sylw ar y problemau sy'n gysylltiedig efo newid hinsawdd, gwastraff a gwenwyno'r blaned.

Mae'r ymateb cadarnhaol i waith Banksy ym Mhort Talbot hefyd yn rhyfeddol ac annisgwyl: dros 2,000 yn teithio i weld y murlun yn y deuddydd cyntaf. Cyfrannodd yr actor Michael Sheen at y costau o greu ffens i amddiffyn y gwaith – mae hyn yn profi i mi fod celf gyfoes yn bwysig i bobl Cymru ac yn derbyn eu cefnogaeth.

## POTENSIAL YR HEN GOLEG

Wrth ddangos gwerthfawrogiad o gelf weledol a gwerth yr annisgwyl, gwelwn fod ymateb pobl i waith celf Banksy ym Mhort Talbot yn dangos pwysigrwydd diwylliant weledol i bobl Cymru. Ers tua hanner canrif bellach, rwyf wedi bod yn anelu at gael gwell cefnogaeth i gelf weledol yng Nghymru. Hoffwn weld celf yn derbyn yr un sylw a chefnogaeth â llenyddiaeth, cerddoriaeth, theatr, ffilm ac ati. Yn y cwad yn Yr Hen Goleg yn Aberystwyth, ble mae gennyf stiwdio, ceir cerflun efydd o Tom Ellis, AS. Yn y flwyddyn 1897 gwelodd Tom Ellis bod angen creu sefydliadau Cenedlaethol yn Nghymru. Roedd rhain yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Genedlaethol ac Oriol Genedlaethol. Rydym yn parhau i fod eisiau Oriol Genedlaethol.

Heb os, Yr Hen Goleg yn Aberystwyth yw un o drysorau pwysicaf y Genedl, nid yn unig oherwydd y bensaerniaeth a'r lleoliad ond hefyd oherwydd bod pobl Cymru wedi gweld ei bod hi'n bwysig creu Prifysgol gyda'r adnoddau i warchod a datblygu diwylliant. Gellir ystyried bod celf weledol a phensaerniaeth yn rhannu nifer o elfennau y mae'n rhaid eu defnyddio os ydym am adeiladu campweithiau: mesuriaeth, cyfartaledd, gwrthgyferbyniaeth, lliw a defnyddiau. Mae'r rhain i gyd yn rhan annatod o ragoriaeth pensaerniaeth, ynghyd â rhagoriaeth celf weledol.

Heddiw, yn 2019, mae cynlluniau ar y gweill i adnewyddu'r Hen Goleg. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn dangos y modd y gall yr Hen Goleg ddatblygu. Gall yr esiampl sy'n cael ei osod gan orielau rhanbarthol ar draws Ewrop megis Bilbao, V&A Dundee, Oriol Newydd Margate, Tate St Ives a Tate Lerpwl, ddangos y ffordd i ninnau.

Gall yr Hen Goleg ddatblygu i fod yn ganolfan i greadigrwydd. Byddai modd manteisio ar yr adnoddau gwych sydd i'w canfod yn y Llyfrgell Genedlaethol, a fyddai'n rhoi cyfleoedd

ardderchog i gymunedau, ysgolion a cholegau ar hyd y Gorllewin. Efo dros 200 o ystafelloedd gall yr Hen Goleg fod yn safle i gynnal cyngherddau, darlithoedd, amgueddfa ac arddangosfeydd o bob math, ynghyd â phreswylfeydd rhyngwladol cystadleuol i artistiaid unigol am gyfnodau o dri neu chwe mis, dyweder. Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn, hoffwn weld gofod arbennig yn yr Hen Goleg ar ei newydd wedd – gofod parhaol ar gyfer gwaith rhai o Gewri Celf Cymru: Thomas Jones Pencerrig, Richard Wilson, David Jones, Ceri Richards, Gwen John, Brenda Chamberlain, Roger Cecil, William Bowen, a llawer mwy.

Cafodd astudiaeth dichonoldeb o'r posibilrwydd o gael Oriol Genedlaethol i Gymru ei orffen yn ddiweddar. Teimlo yr wyf fod angen i'n horiel Genedlaethol fod yn gweithredu mewn mwy nag un man, a hynny am nifer o resymau – gan gynnwys cymeriad Cymru fel gwlad fynyddig. O ddilyn y patrwm hwn, gall yr Hen Goleg gyfrannu cyfleoedd i gynnal arddangosfeydd mewn adeilad sydd eisoes yn bodoli. Byddai'n bosib cyfoethogi rhaglen weledol yr Oriol trwy drefnu digwyddiadau dros dro mewn sawl man gan ddilyn patrwm Theatr Genedlaethol Cymru.

## TURNER PRIZE CYMRU

Dros y blynyddoedd, mae'r Hen Goleg a Phrifysgol Cymru wedi derbyn nawdd yn sgil haelioni arbennig y teulu Davies, Llandinam. I ddatlu'r cyfraniad hwn, byddai creu gwobr ar gyfer celf weledol – rhywbeth yn debyg i'r Turner Prize – er mwyn coffáu diddordeb a brwdfrydedd y chwiorydd Davies wrth gasglu celf weledol arbrofol yn fodd i bwysleisio'r cyswllt rhwng creadigrwydd a datblygiad yr Hen Goleg. Heb os, byddai 'Gwobr y Chwiorydd Davies' yn rhoi sylw amserol i gyfraniad merched, gan roi cyhoeddusrwydd i un o ardaloedd tlotaf y Deyrnas Unedig.

# Y Bwrdd Dyfan Lewis gyda darluniau Esyllt Lewis

**'Am brydferthwch!' ebychodd Moira Siencyn wrth y sawl oedd wedi ei chrosawu hi a'i phriod i'w haelwyd.**

Dyfnhaodd y crychau o gylch ei llygaid wrth iddi wenu a throï at yr Arglwydd Mathias gan ddatgan 'Mae hi'n hardd!'.

'Mi wn i hynny,' ymatebodd yntau. Roedd gan yr Arglwydd Siarllys Mathias yr hyder sy'n deillio o fod wedi'i amgylchynu â chyfoeth o'r crud. Ef oedd larll cyntaf Sir Forgannwg wedi'r cyfan, ac yn berchen ar yr archfarchnad nodedig Mewnamas. Ef hefyd oedd perchennog plasty Aberpergwm, lleoliad yr hanes sy'n dilyn.

Roedd neuadd Aperpergwm yn adnabyddus drwy Sir Forgannwg gyfan. Dyma'r neuadd y byddai unigolion mwyaf nodedig y sir yn ymgasglu ynddi er mwyn cymdeithasu. Bob mis byddai parti rhwysgfawr yn cael ei gynnal yno, lle byddai gwystai dethol o rengeodd uwch cymdeithas yn tyrru i feddwi ac i fwynhau. Cai'r neuadd ei gweddnewid ag addurniadau drudfawr a oedd yn gollwng o'r to, a'r rheiny'n amrywio yn ôl thema'r noson. Roedd hi'n bwysig i bawb a oedd yn unrhyw un yn Sir Forgannwg gael eu gweld yno, wedi'u taclu'n eu gwisgoedd crand.

Heno fodd bynnag, gwag oedd y neuadd, bron iawn, heblaw am un bwrdd crwn pren yn ei chanol.

O'i amgylch roedd pedwar yn eistedd ac yn swpera.

Ry'n ni wedi cwrdd â dau o'r pedwar hynny – Siarllys Mathias, larll cyntaf Sir Forgannwg, ynghyd â'r Foneddiges Moira Siencyn. Hi, Moira, oedd wedi'i syfrdanu yn gynharach gan brydferthwch rhywbeth. Roedd Moira'n ferch i Ddug Mochno, ac yn gymdeithaswraig frwd ymhlith cylchoedd mwyaf cywain y wlad. Hwn, fodd bynnag oedd ei hymweliad cyntaf â'r neuadd, ac roedd hi'n llawn cyffro i fod yno.

Testun ebychiad Moira 'Am brydferthwch!' oedd y gantores opera nodedig Loti Mathias, a oedd yn wraig i'r Arglwydd Siarllys Mathias.

'Rydych chi'n rhy garedig,' oedd ymateb Loti i Moira. Natur digon graslon oedd i Loti, ond diflewyn ar dafod er hynny. Roedd hi'n aelod brwd o Gymdeithas Menywod Ceidwadol Morgannwg ac yn meddwl o ddifrif am

gamu i fyd gwleidyddiaeth pe byddai ei llais canu yn digwydd pylu.

Y pedwerydd o'r criw o amgylch y bwrdd oedd Hwmffre Siencyn, Uchel Siryf ei Fawrhydi. Ef oedd gŵr Moira Siencyn, ac roedd e'n rhedeg ffarm yn Sir Geredigion. Dyn llawen a llond ei gôt er nad oedd cystal hwyl arno ers i Morgan Morgan ddechrau ar ei ymgyrch.

A meddwl mai dim ond pedwar oedd yn y cwmni, doedd dim diwedd i'r sioe o gyfoeth, na'r moethynnau oedd wedi'u gosod ar y bwrdd. Ger eu bron roedd cimychiaid, saladau, olewydd, bara'n syth o'r popty, paté samwn, samwn wedi'i fgyu, samwn wedi'i rostio, cyw iar, moron, tatws melys a llysiâu eraill ac wrth gwrs stêc cig eidion a thato yn unswydd ar gyfer Hwmffre Siencyn, oedd yn gwrthod bwyta dim arall. O gylch yr ystafell safai amryfal weision yn barod i weini ar y sawl oedd yn gloddesta, boed hynny'n win neu'n sieri neu'n unrhyw orchwyl arall pe bai taro.

Digon llednais oedd y sgwrsio hefyd, yn ôl y disgwyl mewn sefyllfaoedd o'r fath.

'Roeddwn i'n arfer marchogaeth,' meddai'r Foneddiges Siencyn, gan wyro ar draws y bwrdd i gyfeiriad y Mathiasiaid. 'Yn fy ieuentid. Roeddwn i'n hoff iawn o farchogaeth. A saethu'n ogystal.' Trodd ei hwyneb yn ddifrifol yn sydyn, a thynnodd ei gwefusau ynghyd. 'Mae henaint, a 'nghlun simsan wedi rhoi pen ar hynny i gyd wrth gwrs'.

Estynnodd Loti Mathias ei llaw tuag at Moira Siencyn a dweud 'Mae'n ddrwg iawn gennym glywed hynny, Mrs Siencyn. Gallwn oll fod yn ddiolchgar, serch hynny, a chithau'n gymaint o saethwraig frwd, eich bod yn eich elfen o hyd yn cyflawni un gamp neilltuol.'

'Oho!' Ebychodd Moira Siencyn gan godi i'r hwyl unwaith eto. 'Pam felly?'

'Nid llawer sy'n medru goddef bwyta gyda'r rhain uwch eu pennau.' Cododd Mrs Mathias ei llaw a chyfeirio at nenfwd y neuadd. Sôn yr oedd hi am un arall o nodweddion trawiadol Plasty Aberpergwm. Yno ar y muriau yr oedd rhesi o bennau anifeiliaid a oedd yn edrych i lawr ar y sawl oedd yn ciniawa. 'Y mae gofyn i ni ymddiheuro'n aml i'n gwystai am nad ydynt, er gwaethaf y wledd o'u blaenau, yn medru stumogi eu

bwyd'.

Dychwelodd y wên i wyneb Moira Siencyn, gan ddatgelu dannedd gosod dan finlliw coch. 'Peidiwch â siarad dwli! Rwyf wrth fy modd! Mae'n atgoffa menyw o'i phlentyndod, fy magwraeth. O! Roedd fy nhad yn heliwr brwd, ac yn casglu trôffis tebyg i'r rhain.'

Roedd Moira wedi clywed am y pennau hyn, wrth gwrs. Ac roedd yna sôn a siarad ledled teyrnas amdanynt, cyn belled â Cheredigion lle'r oedd hithau a Hwmffre'n byw. Roedd hi'n benderfynol o gael stori i'w rhannu â'i chylch yno am y pâr hynod o Sir Forgannwg. 'Mae ôl gwaith llawer i helpa'n fan hyn, trawiadol iawn.' Anelodd dau air olaf y frawddeg i gyfeiriad yr Arglwydd Mathias, a gododd ei aelïau a dweud:

'Hoffwn i gymryd y clod am y gwaith hwnnw, ond mae genna i ofn mae gwaith llaw'r Hen Gownt ydy'r rhain'.

Edrychodd Moira'n syn. 'Yr Hen Gownt?' holodd.

Gwenodd Loti Mathias cyn esbonio 'Mi oedd yn anturiaethwr hynod. Mae sôn iddo ymladd ac ennill yn erbyn morlo heb ddim ond brigyn yn ei law.'

'Anhygoel!' llafarganodd ei chynulleidfa.

'Mi oedd y rhain,' cododd Loti Mathias ei llaw at y pennau 'yn droffis i'r Hen Gownt. Fe welwch chi dwrch daear, blaidd, carw, baedd, cadno, carw arall eto. Mae eraill o natur mwy egstotig yn yr ystafell ysmegu, gan gynnwys y morlo y cyfeiriais ato. Yn wir, doedd ganddon ni mo'r galon i'w taflu o'r neilltu. Roeddent yn annwyl iawn i'r Hen Gownt, a phenderfynasom ufuddhau i'w ewyllys yntau o ran y decor ar ôl etifeddu'r lle ... Heblaw'r ystafell ymolchi wrth gwrs!'

Daeth llais ei gŵr yng nghanol y chwerthin 'Roedd rhaid newid honno!'

Ffrwydrodd y bwrdd dan chwerthin ffyrnicach fyth ymhlith tri o'r rhai oedd yn eistedd yno. Roedd y pedwerydd, Hwmffre Siencyn wedi bod yn hynod ddywedws, ond dyma yntau yn awr yn hanner chwerthin yn hanner cwrtais. Nid oedd yn gysurus o bell ffordd. Cododd ei facyn i fopio diferyn o chwys oedd yn ymlwybro i lawr ei foch tuag at ei fwstas. Uwch Siryf ei Fawrhydi neu beidio, roedd Hwmffre ar bigau'r drain.

Roedd ei wraig yn siarad eto. 'A



Siarlys  
Mathias



Loti  
Mathias

sut yn union ddaethoch chi i fyw mewn lle mor grand, dywedwch?' Os oedd awgrym nawddoglyd yn y cwestiwn, ni ddangosodd Loti Mathias unrhyw arwydd fod hynny wedi tarfu arni.

'Gan yr Hen Gownt ei hun' atebodd. 'Syrthiodd mewn cariad yn ddyn ifanc, a cholli'r cariad yn ifanc hefyd, yn ddau ddeg tri. Roedd y ddau'n ddi-blant ac er i nifer o ddugesau geisio dwyn perswâd arno, ni wnaeth syrthio am neb wedi hynny. Roedd ei galon wedi ei thorri am byth.

Un peth oedd yn ei gadw'n ifanc oedd yr opera, ond wrth i'w henaint a'i iechyd waethygu, fe gollodd y gallu i fynd i weld y sioeau. Dyma pryd ddes i ar ei draws, yn hen ŵr. Daeth gwahoddiad i mi ddod yma i ganu iddo. Datblygodd y ddau ohonom ni gyfeillgarwch unigryw iawn. Roedden ni'n hoff iawn o'n gilydd.' Edrychodd i lawr ar y bwrdd. 'Mi oedd yn ddyn hynod iawn... Wrth gwrs, gyda Siarllys yn ddyn o'i statws a'i linach penderfynwyd mai priodol fyddai iddo adael y stâd a'i holl asedion i ni.'

Roedd deigrin yn llygaid Moira Siencyn erbyn hyn. 'Oo!' Oedd yr unig beth y gallai fynegi.

Yn y tawelwch dilynol amlygwyd meistroliaeth y Mathiasiaid ar gynnal diddanwch eu gwesteion. Caniatawyd hynny o amser a oedd yn chwaethus i gofio am yr Hen Gownt ond cyn i'r tawelwch droi'n syrffedus, fe drodd Siarllys Mathias a gofyn 'Rhagor o win?' Dyna oedd hi wedyn. Galwodd ar y gwast 'Belwyn!' ac fe ymddangosodd dyn main ond digon clên yr olwg, a dechrau tywallt gwyaidd i bawb.

'Rydych chi'n dawl iawn, Mr Siencyn,' meddai Siarllys Mathias. Ac yntau wedi ymgolli yn ei feddyliau, taflwyd Hwmffre Siencyn oddi ar ei echel braidd gan y sylw. Nid oedd wedi disgwyl

bod yn ganolbwynt y sgwrs. Edrychodd yn ymbilgar ar ei wraig am ysbrydoliaeth, ond ni wnaeth Moira ond rhoi arwydd â'i llygaid iddo ddweud rhywbeth. Unrhyw beth, er mwyn cadw wyneb.

'Stecen 'yfyd.' Llwyddodd Hwmffre trwy geg hanner llawn cyn dychwelyd at dorri'r cig oedd ar ei blat.

'Creadur tawel ydy Hwmffre'.  
Gwenodd Moira.

Y gwir oedd bod Mr Siencyn wedi bod yn gwrando'n lled astud ac yn ddigon amyneddgar ar y sgwrs, ond bellach roedd yn cyrraedd pen ei dennyn. Er iddo gael teitl Uwch Siryf Ceredigion, ffarmwr llaeth ydoedd mewn gwirionedd. Nid ef fyddai'n gwneud y gwaith caib a rhaw chwaith, y codi'n blygeiniol feunyddiol i odro ac yn y blaen. Ei weision fyddai'n gwneud hynny. Roedd yntau'n llawer rhy brysus yn meddwl yn nhermau *proffit marjins* a *stoc* a sut i gynyddu *incwm*. Dyna sut greadur oedd Hwmffre, a doedd e ddim yn un am sgysiau neis neis. Roedd ar fin agor ei geg a charthu'r hyn oedd yn ei boeni pan ddechreuodd ei wraig siarad o'r newydd.

'Roeddwn innau'n blentyn talentog, fy hun. Wrth gwrs, rwyf wedi sôn am fy nyddiau'n marchogaeth. Roeddwn i'n frwd iawn cyn i fy nghlun i fynd ar chwâl, wyddoch chi. Cyrhaeddais y bencampwriaeth genedlaethol droeon...'

'Clywasom sôn am eich gorchestion,' porthodd Loti Mathias.

'Do wir?' Parhaodd Moira gan edrych yn bles â'i hunan. 'Ni lwyddais i ennill yr un tro, ysywaeth. Fe dyfais yn hŷn wrth gwrs, a daeth llai o amser i ymarfer, ac wedyn aeth fy nghlun yn siwrwd. A dyna oedd diwedd y freuddwyd. Mi fydda i'n dal i fynd i wyllo'r to iau yn marchogaeth. Rwy'n meddwl weithiau y dylwn ddechrau hyfforddi rhai

ohonynt. Gallaf ddechymgu fod y fath beth yn rhoi llawer o foddhad. Mae'n beth hynod onid yw? Yr hyn mae eich athrawon yn ei gyflwyno i chi. Rwy'n siŵr fod fy holl gariad i tuag at farchogaeth yn deillio o arweiniad hynod fy hyfforddwraig, Edwina Morgan.'

Roedd Moira wedi gobeithio y byddai cyfeirio at bencampwraig ryngwladol marchogaeth dressage yn cyfareddu ei chynulleidfa, ond ni wireddwyd ei bwriad. Ar ynganiad yr enw 'Edwina Morgan', clywyd sŵn gwyr yn chwalu, ac wedyn bron yn syth daeth sgrêch operatig o enau Loti Mathias.

Roedd Hwmffre Siencyn wedi torri ei wydr gwin yn ei law, ac roedd gwin coch a gwaed yn gymysg oll i gyd ar ei lawes.

'Hwmffre!' sgrechodd Moira Siencyn.

Roedd ffwdan rhyfedda wedyn: Loti Mathias yn gafael yn ei chalon ac yn anadlu'n drwm, a'r Arglwydd Mathias yn erfyn 'Ewch i'r ysbyty wir dduw'.

'Na, wir i chi, dw i'n iawn,' oedd ateb Hwmffre Siencyn, er nad oedd yn edrych yn iawn o bell ffordd. 'Fyde hi'n bosib i un o'r gwseion ddod â rhywbeth i mi rwymo'r clwyf?'

Roedd golwg dyn a oedd wedi'i lenwi â dicter ond wedi cyrraedd rywle lle'r oedd y peth bron yn ddoniol ar Hwmffre. Roedd gwedd hanner gwallgofddyn arno a gwên od ar ei wyneb wrth iddo siarad.

'Welwch chi, mae'n beth doniol mewn ffordd, bod clywed yr enw hwnnw wedi ennyn y fath ymateb yndda i,' dywedodd â'i llygaid ynghau, cyn eu hagog ac edrych yn iawn ar yr Arglwydd Mathias am y tro cyntaf y noson honno. 'Rwy'n cofio Edwina'n iawn. Roeddwn i'n un o gludwyr yr arch yn ei hangladd hi er mwyn dyn. Ond ei *hail* henw ... Myn jiawl.



Ymddiheuriade am newid cywair y noson ond rwy' wedi cael hen ddigon ar y lledneisrwydd a'r siarad wast.'

Roedd ei wraig yn edrych yn hynod o ddig ar ôl clywed y frawddeg olaf.

'Tybed a fyddde hi'n bosib, Arglwydd Mathias, i ni drafod ein materion busnes. Problem ein ... cydgyfaill ... a'r rheswm i chi ein gwahodd ni yma?'

Roedd wyneb Moira Siencyn fel wyneb person a oedd ar fin colli popeth. 'Hwmffre, plîs!' plediodd. 'Nid wrth y bwrdd bwyd!'

Ni chyffrôdd Siarllys Mathias y mymryn lleiaf. 'Na, na. Mae'n iawn i ni drafod. Wedi'r cyfan dynion busnes ydyn ni, ynte?' Roedd y gallu ganddo i dawelu unrhyw sefyllfa annifyr.

Daeth chwerthin mawr o enau Hwmffre Siencyn, a dywedodd bron yn llechwraidd: 'Ry'ch chi'n gwybod am bwy rwy'n sôn, Arglwydd Mathias...'. Pwyllodd wrth i bawb wrando'n astud arno cyn parhau. 'Un Morgan Morgan, y cnaf.'

Daeth tawelwch i'r neuadd. Roedd y gweision hyd yn oed yn ofn anadlu.

'Gwir iawn, y rheswm i mi eich gwahodd yma oedd i drafod y cythraul hwnnw ... Byddai ychydig yn rhagor o gyfle i chwedleua â'ch gwraig hyfryd wedi creu noson mwy hamddenol i bawb, rwy'n siwr, ond waeth i ni heb â llaesu dwylo eiliad yn hwy.'

Arhosodd am ennyd i sicrhau bod pawb yn gwrando'n astud.

'Ychydig ddyddiau yn ôl, rhynggipiwyd un o fy loriau oedd ar ei ffordd i archfarchnad yn y Ddinas. Nid yn aml mae hyn yn digwydd, felly mi oedd yn beth hynod. Ond yr hyn a'i gwnâ'n hynotach fyth oedd mai dim ond caws gafodd ei ddwyn o'r lori. Nawr, roeddwn

i'n chwilfrydig am hyn, ac o ofyn i hwn a hwn a hon yn y byd amaeth a llaethyddiaeth, cefais ar ddeall eich bod chithau wedi cael problemau tebyg?'

'Problemau?! Problemau?!?' rhuodd Hwmffre Siencyn. 'Mae'n drychineb o'r mwyaf! Dros 70 y cant o fy nghynnyrch caws wedi'i ddwyn ar y ffordd i'r distriwtor, mae'r peth wedi'n llorio ni. Allwn ni ddim â chario mlaen fel hyn! Rhaid i'r cythrel diegwyddor gael ei ddwyn o flaen ei well. Mae'n rhaid i mi gael fy nghaws!' Rhuodd Hwmffre Siencyn. Mi oedd bellach wedi codi ar ei draed, ac yn stompio'r llawr bob yn ail air.

'Gostegwch eich hun, Hwmffre,' dywedodd Moira Siencyn.

'Gostegu!? Gostegu!? Wna'i wneud dim o'r fath beth. A fe ddweda.... i beth arall, mae'r – mae'r cuuwrgh cuuwrgh ...'. Ond fe gollwyd beth yn union 'oedd' gan anadlu trwm a pheswch yn dod o geg Hwmffre Siencyn. Roedd e'n dioddef pwl gwael. Trodd ei wyneb coch yn gochach ac roedd sŵn gwichian yn dod o rywle o dan ei fwstach.

Rhuthrodd ei wraig tuag ato.

'Hwmffre, plîs. Ry'ch chi'n gwybod yn iawn i beidio â chyffroi'n ormodol, mae'r doctor wedi'ch rhybuddio dro ar ôl tro.'

Estynnodd Hwmffre at ei bwmp a chymryd un anadl hir cyn codi llaw i amneidio ar ei wraig i gilio.

'Ymddiheuriadau am wneud hynny wrth y bwrdd bwyd,' ebychodd ar ôl iddo lwyddo i adfer ei anadl. 'Nid yw'r fogfa a 'nhymy yn cydfyw'n dda iawn ...'

'Hwmffre!' siarsiodd Moira Siencyn.

'Ac ... wrth gwrs, gobeithio wnewch chi faddau fy siarad plaen yn gynharach hefyd, Mrs Mathias.'

'Rydym ond yn hapus eich bod yn iach, Mr Siencyn,' atebodd hithau, heb gyfaddef iddi ganfod yr holl rialtwch yn

ddigon difyr mewn gwirionedd.

'Peidiwch â gofidio dim,' dywedodd yr Arglwydd Mathias. 'Pa beth yw embaras rhwng dau ffrind? Rwyf innau fy hun wedi teimlo'r un dicter i chi ei fynegi mor huawdl Mr Siencyn. Yr ydym ni'n dau wedi gweld colledion mawr ar ôl i'r Morgan Morgan yma ein rheibio ni. Ond mae gennyf newyddion i chi. Ac i chithau hefyd Loti ... Does neb ond fy ngwas ffyddlon yn gwybod ... Belwyn!'

Rhuthrodd Belwyn rhagddo, ac wrth iddo wneud fe ddatganodd Mr Mathias;

'Rhaid eich bod chi wedi sylwi nad ydyn ni wedi cael ein saig caws eto ...'

Daeth Belwyn i'r bwrdd yn cario hambwrdd â *chloche* arian arno. Gosododd y peth yng nghanol gweddill y danteithion cyn edrych ar ei arglwydd. Amneidiodd Siarllys Mathias arno, a chododd Belwyn y *chloche* i'r entrychion.

Yno mewn cawell yn nghanol y danteithion oedd neb llai na Morgan Morgan.

Ebychodd y bwrdd yn syfrdan.

'Y Dihiryng Dêri!' bloeddiodd Hwmffre Siencyn.

'Y Lleidr Llaeth!' sgrechiodd Loti Mathias.

'Y Drwg yn y Caws!' gwaeddodd Moira Siencyn.

'Ry'ch chi'n llawer rhy garedig,' gwichiodd Morgan Morgan 'Ond ma llawer gwell gen i Gafflwr Caerffili. Mae'n rhoi bach o *gravitas*. Sense of place, chimbod?'

'TAWELWCH!' Taranodd llais Siarllys Mathias dros barablu'r llygoden.

'Ohoho oce 'te, mistar, be sy' di gwylltio ti heddi 'de?'

'Wnewch chi gyfeirio ataf i fel Arglwydd Mathias ac Arglwydd Mathias

yn unig, y ffŵl di-glem!

'Ie ie iawn, Mr Arglwydd

*Mathias*, 'dynwaredodd Morgan Morgan mewn llais hunan-bwysig cyn troi i edrych o'i gwmpas. 'Wel, wel, chi wir wedi ca'l swper go dda heno, on'd y'ch chi?' Wrth i'w lygaid astudio'r ystafell, sylwodd ar Moira Siencyn yn syllu arno yn gegagored. Roedd hithau a gweddill y bwrdd wedi'u parlysu o weld pa mor hy' oedd y lygodyn hon.

'Mrs Siencyn! Wel wel, rwyf wedi clywed llawer am eich harddwch ond i brofi â fy llygaid fy hun, am brofiad! Am fywyd!' Moesymgrymodd Morgan Morgan i gyfeiriad y Foneddiges. 'Gawn ni weld nawr ... ydych chi'n hoff o Shakespeare? Ahem, tawelwch, os gwelwch yn dda ... "Shall I compare thee to a summer's day? Thou art more fair and..."

Deffrôdd Hwmffre Siencyn o'i fudandod wrth glywed y llygodyn yn adrodd barddoniaeth. 'Ca di dy ben y jiawl bach. Ti 'di dwyn digon o gaws wrtha i'n barod a fydda i'n ffycd os wyt ti'n dwyn yn fenyw i 'fyd!'

Edrychodd Morgan Morgan arno mewn sioe ffug o syfrdandod. 'Am ddyn anfoesgar ydych chi Mr Siencyn.' A throdd at ei wraig 'Sut ar wyneb y ddaear ydych chi'n ei odde fe, Mrs Siencyn?' Parhau i syllu'n fud wnaeth Moira.

'Wel gan nad ydych chi'n hoff o Shakespeare, beth am rywbeth â blâs Cymreig ... Hmmm ...' Edrychodd yn feddylgar am eiliad, ac wedyn dechreuodd Morgan Morgan y llygodyn, y dihiryn deri, y drwg yn y caws, ganu. Nid canu yn unig, ond canu'r gân serch orau oedd yn bod yn yr iaith Gymraeg: 'Paham mae dicter, o

Myfanwy ...'

Roedd cael llygodyn yn canu cân serch iddi'n ddigon i ysgwyd Moira Siencyn o'i stâd o benstandod. 'Hwmffre! Gwnewch rywbeth!' sgrechiodd ar ei gŵr.

'Yn llenwi'th lygaid duon di? ...'

'Os ffordd 'da ni i gau pen y cnaf jiawl yma!?' rhagodd Hwmffre Siencyn.

'A'th ruddiau tirion, o

Myfanwy ...'

'Belwyn!!!' rhuodd Siarllys Mathias. Dim ond parhau i ganu wnaeth Morgan Morgan.

'Heb wrido wrth fy ngweled i? ...'

Ymddangosodd Belwyn unwaith eto â theclyn sinistr yr olwg. Anelodd at y llygodyn yn y gawell, a rhoi proc i Morgan Morgan.

'Pa le mae sain dy eiriau meeeelyyrrrrh' oedd yr unig beth i Morgan Morgan allu ei fynegi, a daeth golwg gysglyd, freuddwydiol drosto.

'Dyna ddigon ar hynny,'

dywedodd Siarllys Mathias gan rwtio'i ddwylo. 'Rydych chi wedi cael eich hwyf Mr Morgan, a dydych chi ddim am dministrio fy sioe fach i nawr.' Cymerodd anadl ddofn, a thawelodd am eiliad fechan, cyn cynhyrfu unwaith eto: 'Pedwar deg olwyn o gaws! Pedwar deg! Pob un wedi mynd i'ch bol chi. A wyddoch chi faint o arian rydych chi wedi ei gostio i mi Mr Morgan?'

'Fy mola i? Nage wir. Ma genna i wraig a thri chant o blant i'w bwydo. Heb sôn am gefndryd,' mwmiodd Morgan Morgan.

'Ac i minnau, miloedd ar filoedd o bunne! Y cythrel jiawl!' rhagodd Hwmffre Siencyn. 'Mae'n hen bryd i ni gael cyfiawnder!' Roedd ganddo olwg waedlyd yn ei lygaid.

Cododd Siarllys Mathias ei law.

'Nawr, nawr, Mr Siencyn, fe ddaw cyfiawnder, ac fe wnawn ninnau ei ddyfarnu.'

Deffrôdd Morgan Morgan ychydig gyda hyn. 'Wow wow wow. Fi'n gwybod bo 'da chi deitle crand bois ond ers pryd ma'r uwch siryf a'r arglwydd yn farnwr, yn rheithgor ac yn ymgymwr?'

Chwarddodd yr Arglwydd Mathias chwerthiniad erchyll. 'Lygodyn fach, rhaid eich bod chi o bawb wedi'i deall hi erbyn hyn. Cyfoeth sy'n arwain cyfiawnder.' Daeth gwên ddieflig i'w wefusau. 'Ac mi rydym ninnau o amgylch y bwrdd hwn yn gyfoethog iawn, iawn, iawn. Nawr digon ar eich dwli. Belwyn, rhwymwch ei geg o!'

Tynnodd Belwyn dâp o'i boced a'i osod dros geg Morgan Morgan. Roedd brafado blaenorol Morgan Morgan wedi'i ddisodli ag ofn llwyr. Daeth y sylweddoliad am yr hyn oedd ar fin digwydd yn fyw yn ei lygaid.

Sythodd Siarllys Mathias ei gefn a chliriodd ei wddf cyn datgan mewn llais erchyll; 'Nawr, am eich aneirif droseddau a'ch difrod ariannol dirfawr i minnau, yr Arglwydd Siarllys Mathias, ac i'r Uwch Siryf Hwmffre Siencyn, rydych chi'n cael eich cyhuddo o ddwyn, difwyno man cyhoeddus, gyrru heb drwydded nac yswyriant, rhwystro cwrs cyfiawnder, a tharfu ar yr heddwch. Sut ydych chi'n pledio?'

Daeth synau aneglur o rwymau Morgan Morgan.

'Beth?' meddai'r Arglwydd Mathias. 'Ni fedraf eich clywed, Mr. Morgan.'

Rhagor o synau aneglur.

'Wel, yn eich tawelwch, a'ch penderfyniad i beidio â chymryd rhan yn yr achos, symudaf ymlaen at y ddedfryd. Weision, a yw'r cnaf yn euog neu'n ddieuog?'

Ac fel corws o ddiabiliaid uffern, cododd lleisiau'r sawl oedd yn amgylchynu'r bwrdd. Y gweision oeddent, a hwythau heb ddefnyddio eu lleisiau drwy'r nos, nawr yn llafarganu gyda'i gilydd:

'EUOG!'

'EUOG!' rhuodd Hwmffre

Siencyn gyda nhw.

'Nawr 'te, Morgan Morgan, rwyf ti wedi peri gormod o boen am lawer ry hir, ac mae'n bryd i ti dalu'r pris ... gyda dy fywyd!'

Estynnodd ei law tuag at y gawell.

'O! Fedra i ddim edrych!'

Sgrechodd Moira Siencyn, a chuddio ei hwyneb yn ei dwylo. Roedd Loti Mathias yn wylo.

Un anodd i'w ddal oedd Morgan Morgan, ac er effeithiau'r cyffur llwyddodd i frasgamu ar hyd y gawell wrth geisio osgoi llaw'r Arglwydd Mathias.

'O diwedd mowr ... Belwyn!'

Unwaith eto ymddangosodd y gwas ffyddlon wrth y bwrdd a chael gafael yn y llygodyn cyn ei basio i Siarllys Mathias. Gafaelodd yntau yn y creadur, a'i ddyrchafu tua'r to.

'Weli di'r anifeiliad lan fyny yn fan yna, Morgan Morgan? Eu pennau'n syllu i lawr arnom ni. Hen droffis dyn marw. Ac er parch i'r dyn hwnnw nid ydwyf wedi ychwanegu unrhyw un o'm gorchestion innau atynt. Ond o'r diwedd, rwyf wedi dal ysglyfaeth gwerth chweil. Ie, fe wnewch chithau ychwanegiad twt i'r casgliad.'

A chyda hynny, dyma'r Arglwydd Siarllys Mathias yn gwasgu Morgan Morgan nes bod ei lygaid bach e'n popo, a'i wisgers yn sagio, a'i glustiau'n chwincio. Roedd fel petai yno hyd dragwyddoldeb yn dal Morgan Morgan yn llawn gorfoledd oddi fry cyn daeth y rhith i ben yn ddisymwth gyda sŵn. Sŵn splat. Torrwyd corff Morgan Morgan yn shils a thasgodd ei waed dros holl weddillion pryd bwyd yr Uwch Siryf, Y Foneddiges, yr Arglwydd a Mrs Mathias. Pistyllodd y gwaed drostynt hwythau hefyd, dros foch Moira Siencyn, dros wallt Loti Mathias ac i geg agored Hwmffre Siencyn. Gollyngodd talp o waed i lygaid Siarllys Mathias, a oedd wedi bod yn gwneud y gwasgu, a gwaeddodd mewn poen a sioc.

A dyna oedd diwedd Morgan Morgan.



## ADNABOD YR ARTIST Efa Blossé-Mason

**Efa Blossé-Mason yw'r artist sy'n gyfrifol am y gwaith celf trawiadol ar ein clawr y tro hwn.**

Mae Efa Grug yn wneuthurwr ffilmiau, yn animeiddiwr ac yn ddarlunydd o Gaerdydd. Yn 16 oed, hi oedd y person ieuengaf i gyflwyno

gwaith i Wobr Iris – yr ŵyl ffilmiau hoyw a lesbiaidd ryngwladol – gyda ffilm 'live action' byr. Astudiodd Efa gwrs sylfaen celf ym Mhrifysgol De Cymru, Trefforest, gan symud draw i fyd animeiddio trwy astudio gradd ar y pwnc yn Ysgol Animeiddio Bryste.

Mae hi wrth ei bodd â phosibiliadau di-ben-draw animeiddio, a'r bydoedd y gellir eu creu i gyfleu gwirioneddau emosïynol creiddiol.

>> [efabanimation.weebly.com](http://efabanimation.weebly.com)  
>> IG: @efabm  
>> [efa.blossemason@gmail.com](mailto:efa.blossemason@gmail.com)



# Y STAMPWYR

YN NHREFN EU HYMDDANGOSIAD YN Y RHIFYN

## Efa Blosser-Mason

gweler gyferbyn. (clawr, tud. 40)

---

## Esyllt Lewis (Gol.)

@EsylltLewis

Graddiodd Esyllt o Brifysgol Caerdydd eleni wedi iddi astudio gradd mewn Cymraeg ac Athroniaeth. Mae'r cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng y ddau bwnc o ddi-ddordeb mawr iddi, ac fe hoffai weld rhagor o drafodaeth am Athroniaeth yn Gymraeg. Ym mis Mehefin, bydd Esyllt yn teithio i Fenis i weithio ym mhafliwn Cymru yn y Biennale Celf Rhyngwladol. I weld ei darluniau o Fenis, dilynwch @darlun\_y\_dydd ar Instagram. (tud. 2-4)

---

## David Greenslade

Mae David Greenslade yn dysgu ym Mhrifysgol Metropolitaidd Caerdydd. Mae'n ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn aml yn cydweithio ag artistiaid gwledol. (tud. 7)

---

## Marged Siôn

IG: *voluptuousslim*

Yn ysgrifennwr, cantores ac artist o Gaerdydd, mae Marged yn mynegi ei hun er mwyn ceisio codi lleisiau merched ar draws y byd. Ar ei rhestr o bethau i'w gwneud mae 'world domination' ac 'I'm not an average mom, I'm a cool mom'. Mam i ferched y byd, hynny yw. (tud. 8)

---

## Dan Stevens

Daw Dan o gartref di-Gymraeg ac fe ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith yn Abertawe, cyn symud ymlaen i astudio gradd yn y Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Abertawe. Fel rhan o waith ei drydedd flwyddyn mae wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau traethawd estynedig sy'n cymharu ac yn cymhwyso theory gwyr i *Paradise Lost* John Milton a *Fabula Llŷr* Gwyn Lewis. (tud. 9-10)

---

## Guto'r Glyn

Roedd Guto'r Glyn yn fardd stampus oedd yn byw rhwng tua 1435 a 1493. Ef, yn ôl yr hanes, a sefydlodd gylchgrawn *Barddas*. (tud. 11)

---

## Meltem Arıkan

*meltemarikan.com*

@MeltemArıkan

Nofelydd, dramodydd a bardd Twrcaidd yw Meltem Arıkan. Mae'n byw mewn alltudiaeth yng Nghymru wedi nifer o gyhuddiadau yn erbyn ei gwaith gan yr awdurdodau yn Nhwrcci. Eleni, llwyfannwyd ei drama dwyieithog, *Y Brain / Kargalar*, yn y Gymraeg a'r Dwrceg gan Be Aware Productions. (tud. 12-14)

---

## Lliwen Glwys

@Lliw\_Glwys

Cafodd ei geni a'i magu yn ardal Machynlleth. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Bro Ddyfi cyn symud ymlaen i astudio Cymraeg Proffesiynol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ers gorffen ei gradd y llynedd, mae bellach yn gyfeithydd gyda Chyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron ac yn byw yn Aberystwyth. (tud. 16)

---

## Lleucu Gwenllian

IG: *lleucu\_illustration*  
*lleucugwenllian.wixsite.com*

Mae Lleucu yn fyfyrwraig darlunio sy'n byw ac yn bod yng Nghaerdydd. Yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, ei gobaith yw gweld cymaint o wahanol wledydd a phosib cyn dod yn ôl i Gymru i weithio fel darlunwraig lawrydd. (tud. 17)

---

## John G Rowlands

*johngrowlands.com*

Yn wreiddiol o Lanrhystud, Ceredigion (cartref ysbrydol *Y Stamp*), addysgwyd John Rowlands yn Aberystwyth. Astudiodd Gelf yng Nghaerdydd, Bryste, a Choleg y Drindod Caerfyrddin ac bu'n athro celf cyn cael ei benodi yn Swyddog Addysg Celf yn Amgueddfa Genedlaethol

Cymru, Caerdydd. Cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf, *aber*, fel rhan o gyfres Beirdd Answyddogol Y Lolfa. Mae'n byw yn Nhre-madog, Gwynedd. (tud. 18-19)

---

## Morgan Alun

Gradd Cynhyrchu yn y Cyfryngau o Goleg Atrium Prifysgol Morgannwg. Hyfforddwr nofio, gitarydd a drymiwr. Newydd ddychwelyd i Dremadog wedi dwy flynedd o deithio ar hyd a lled Awstralia. Gwneuthurwr coctêls profiadol wedi iddo dderbyn hyfforddiant yn Sydney (hic!). (tud. 18)

---

## Gwynon Mair

'Helo, fi yw Gwynon.

Rwy'n hoff iawn o reidio fy meic, a phan fyddaf yn reidio fy meic, rwy'n meddwl am bethe sili.

Weithie, pan nad wyf yn reidio fy meic, rwy'n hoff o dynnu llunie o'r pethe 'ma.

Ac weithie, rwy'n tynnu llunie o bobl gyffredin yn neud pethe cyffredin, neu bobl gyffredin yn neud pethe sili, neu bobl sili yn neud pethe cyffredin, neu bobl sili yn neud pethe sili.

Mae e gyd yn nonsense, rili.' (tud. 20-22)

---

## Mary Lloyd Jones

'Yn saith oed, gwyddwn fy mod am fod yn artist. Nid wyf yn deall paham. Fy mhleser mwyaf yw datblygu syniadau, hanes, hunaniaeth, iaith, mapiau, marciau oes y cerrig trwy ddefnyddio lliw. Cyfeirio at ganu wnaeth beirdd cynharaf Cymru wrth sôn am eu barddoniaeth. Mae'n debyg mai llefaru yn hytrach nag ysgrifennu a wnaeth y beirdd cynnar. Teimlaf fod cysylltiad agos rhwng celf weledol a cherddoriaeth'. (tud. 24, 35)

---

**Tomos Sparnon**  
*@Celf\_Tomos\_Art*

gweler tud. 26 (tud. 25-26)

---

### **Ruth Richards**

Mae Ruth Richards yn astudio am Ddoethuriaeth yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor, ac yn gweithio i'r mudiad lobio, Dyfodol i'r Iaith. Credai y byddai ysgrifennu straeon byrion yn waith anodd a diddiolch. Serch hynny, neidiodd ar y cyfle i ysgrifennu am ramant – rhwybeth y byddai'n wfftio ato fel arfer, er ei bod yn hoff iawn o ffilmiau du a gwyn ar bryn-hawniau Sul glawog ... (tud. 27-28)

---

**Liam Kurmos**  
*engedi2.org/index.html*

Mae Liam wedi gweithio mewn sawl maes academiaidd; Ffiseg, Siapaneieg a chyfrifiadureg, a bu ganddo'i gwmni meddalwedd ei hun. Bellach, fo yw prif weithredwr prosiect Engedi 2.0, ac mae'n grediniol y gall y prosiect gynnig buddiannau i'r gymuned leol ac yn ehangach drwy Gymru. (tud. 29)

---

### **Ellis Jones**

Amaethwr sydd bellach wedi ymddeol yw Ellis Jones. Mae'n byw yn ardal Llaniestyn ac wedi treulio rhan helaethaf ei oes yno. Y mae'n briod â'i wraig Gwen ers 61 mlynedd ac mae ganddynt ddau fab. (tud. 30)

---

**Morwen Brosschot**  
*IG: morwenjones*

Daw o Lanbedrog yn wreiddiol. Mae'n mwynhau arbrofi a chreu o bob math yn enwedig pan fo hynny'n gyfuniad o gelf a geiriau. (tud. 31-32)

---

**Sian Northey**  
*@Siannorthey*

Awdur, bardd a chyfieithydd llawrydd sy'n cynnal gweithdai ysgrifennu o bob math yn y gymuned. Mae newydd gyhoeddi ei thrydedd nofel, *Perthyn*, a chyfrol o straeon byrion, *Celwydd Oll*. Cafodd ei dewis ar gyfer cynllun Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli yn 2016 a 2017, mae'n un o egin ddramodwyr

Theatr Genedlaethol Cymru 2019, a bu yn India ac Ynys Enlli yn rhinwedd ei gwaith fel ysgrifennwr y llynedd. Mae'n byw ym Mhenrhyndeudraeth gyda dau gi a dwy gath ac mae'n fam i dair ac yn nain i chwech. (tud. 32)

---

**Dyfan Lewis**  
*@DyfanLewis*

Mae Dyfan Lewis yn awdur sy'n ysgrifennu mewn sawl cyfrwng. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Awdur Newydd iddo gan Lenyddiaeth Cymru yn Ionawr 2019. Roedd yn fuddugol hefyd ar yr Ysgrif a'r Stori Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. (tud. 36-39)

---

### **Ani Saunders**

gweler yr atodiad (poster)

---

**Gwenllian Llwyd**  
*@GwenllianLlwyd*

Yn wreiddiol o Dalgarnog yng Ngorllewin Cymru, mae Gwenllian Llwyd nawr yn astudio cwrs gradd Meistr mewn Celfyddyd Gain yng Nghaerdydd, gyda diddordeb mawr mewn gweithiau ffilm cymdeithasol. Mae ei gweithiau celf yn ymdrin â'r iaith Gymraeg a phwysigrwydd cymunedau. (adolygydd)

---

**Cadi Dafydd**  
*@cadidafydd97*

Myfyrraig Llenyddiaeth a Hanes Cymru ar ei thrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n ymddiddori mewn llên gwerin, yn enwedig chwedlau lleol yn ymwneud â Sir Feirionydd, yn hoff o sgwennu o bryd i'w gilydd, ac mae hi newydd ddechrau casglu cardiau post difyr. (adolygydd)

---

**Elan Mererid Rhys**  
*@elanmererid*

Mae Elan yn byw yng Nghaernarfon ac yn cydlynu ac arwain prosiectau creadigol mewn ysgolion a chymunedau ar draws Gogledd-Orllewin Cymru. Mae'n artist gweledol gydag arbenigedd mewn tecstilïau ond mae erbyn hyn yn arbrofi â phob math o gyfryngau. Mae hefyd yn creu cerddoriaeth gyda Plu, Bendith ac yn unigol. (adolygydd)

### **Owain Evans**

Hogyn o Gerlan sy'n hoff o deithio, cerdded y mynyddoedd a sgysiau difyr mewn tafarndai. (adolygydd)

---

### **Meleri Morgan**

Daw Meleri Morgan yn wreiddiol o Fwlch-Llan yng Ngheredigion ac mae newydd symud i Gaerdydd. Mae'n athrawes Ddra-ma a Chynfryngau ac yn mwynhau datblygu gwaith creadigol gyda disgyblion. (adolygydd)

---

### **Llŷr Titus (Gol.)**

Awdur a dramodydd, myfyriwr PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor ac un o sylfaenwyr Cwmi'r Tebot, cwmni theatr cymunedol yn Llŷn.

---

**Grug Muse (Gol.)**  
*@Elan\_Grug*

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, yn 2017.

---

**Iestyn Tyne (Gol.)**  
*@iestyn\_tyne*

Llenor, cerddor ac artist o Ben Llŷn yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon ar ôl cyfnod yn Aberystwyth. Mae erbyn hyn yn gweithio fel cyfieithydd rhan amser. Cyhoeddwyd ei ail gyfrol o gerddi, *ar adain*, eleni.

---

## Gwythienne Copr

Ceri Rhys Matthews (Ffliwt)  
Elsa Davies (Ffidil)



26 Ebrill/ Amlwch

Perfformiad Yn: Deyrnas Gopr, 3.30yh  
£5 | archebu: admin@copperkingdom.co.uk

27 Ebrill/ Croesor

Perfformiad Yn: Oriel Caffi Croesor, 7yh  
£8 | angen archebu lle

28 Ebrill/ Amgueddfa Abertawe

Perfformiad, 2.30yh  
Am ddim

Gallai eich hysbyseb **CHI**  
hawlio'r gofod **HWN** yn ein  
rhifyn nesaf!

Cysylltwch:

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com)

Gomer






# AWDURON

Ydych chi'n chwilio am gyhoeddwr?  
Cysylltwch â Gomer heddiw!

[gomer.co.uk/ceisiadau](http://gomer.co.uk/ceisiadau)



[gomer.co.uk](http://gomer.co.uk)



Lawrlwythwch neu archebwch gopiau o ôl-rifynnau'r *Stamp* o [ystamp.cymru](http://ystamp.cymru)